

Amgueddfa Cymru

**Cynllun Gweithredol
2013/2014**

Amgueddfa Cymru: amgueddfa ddysg o safon ryngwladol

Cynnwys

1.0	Cyflwyniad	3
2.0	Ein pwrpas a'n blaenoriaethau	7
3.0	Ymrwymadau craidd	11
4.0	Mentrau strategol 2013/14	14
5.0	Gwerthusiad	30

Atodiadau

A	Llythyr cylch gwaith
B	Rhaglen ymchwil
C	Rhaglen addysg
Ch	Rhaglen arddangosfeydd
D	Materion ariannol

1.0 Cyflwyniad

1.1 Y cyd-destun cyffredinol

Mae Amgueddfa Cymru'n gorff siartredig annibynnol ac yn elusen gofrestredig sy'n cael ei hariannu'n bennaf trwy gymorth grant gan Lywodraeth Cymru fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (CNLC).

Mae'r cynllun hwn, a gytunwyd rhwng Amgueddfa Cymru a Llywodraeth Cymru, yn nodi ein prif waith yn ystod y flwyddyn ariannol o fis Ebrill 2013 i fis Mawrth 2014. Nod y cynllun yw darparu dau beth:

- crynodeb clir i ni o'n cynllun gwaith am y flwyddyn i ddod a fframwaith a fydd yn ein galluogi i fesur ein llwyddiant wrth gyflawni amcanion ein Gweledigaeth
- crynodeb i Lywodraeth Cymru o'n gweithgareddau a'n targedau yn ystod 2013/2014 gan ddangos sut y byddant yn cyfrannu at amcanion Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn i ddod.


1.2 Y cyd-destun cynllunio

Yn 2005/6, aethom ati i ymgynghori'n helaeth ynglŷn â'n Gweledigaeth o greu 'amgueddfa ddysg o safon ryngwladol'. Amlinellir ein hymrwymadau strategol sylfaenol, hirdymor yn y **Datganiad o Weledigaeth**, a gyhoeddwyd fel dogfen ar wahân ac ar ein gwefan, sy'n disgrifio cyfeiriad ein gwaith yn y dyfodol a'n dyheadau ar gyfer datblygu'r Amgueddfa dros y degawd nesaf a thu hwnt. ***Ddiwedd 2013/14, byddwn ni'n dechrau'r broses o ailwampio'r Weledigaeth ar gyfer y dyfodol, gan adeiladu ar lwyddiannau'r ddegawd ddiwethaf ac edrych ymlaen at raglen waith greadigol a heriol dros y 10 mlynedd nesaf.***

Mae'r Map Gweledigaeth (lefel uchaf i'w gweld yn Ffigur 1), sef ein cynllun corfforaethol, yn amlinellu deg amcan allweddol y bydd y sefydliad yn canolbwyntio arnynt dros y tair blynedd nesaf er mwyn gwireddu'r Weledigaeth. Mae'r amcanion allweddol hyn yn cyd-fynd â strategaethau ac amcanion Llywodraeth Cymru (Tabl 1), yn disgrifio ein dyheadau a'n hymrwymadau ar gyfer y dyfodol ac yn cynnig fframwaith cadarn ar gyfer ein gweithgareddau. Bydd nifer o fentrau strategol yn sicrhau ein bod yn gwneud cynnydd ym mhob amcan allweddol.

Mae cyfres o gynlluniau amcanion manwl ar gyfer pob adran yn sail i'r Cynllun Gweithredol hwn, ac maent yn dilyn patrwm y deg amcan allweddol sydd yn y Map Gweledigaeth ac yn nodi manylion y mentrau strategol a nodwyd ar gyfer blwyddyn gyntaf fersiwn gyfredol y Map Gweledigaeth.

Ffigur 1 Map Gweledigaeth Amgueddfa Cymru 2013/14-2015/16



1.3 Y cyd-destun ariannol

Nid yw'r heriau sy'n wynebu economi'r DU wedi lleddfu dros y flwyddyn ddiwethaf ac, mewn sawl maes, maent wedi gwaethygu. Mae pwrs y wlad yn parhau i grebachu. Yn sgil yr hinsawdd ariannol sydd ohoni, mae pob sefydliad sector cyhoeddus yng Nghymru yn wynebu heriau nas gwelwyd eu tebyg o'r blaen. Nid yw Amgueddfa Cymru yn eithriad. Bydd effaith y diffygion yng nghyllideb y sector cyhoeddus yn cael effaith arwyddocaol ar ein gweithrediadau dros y blynyddoedd nesaf.

Er gwaetha'r heriau ariannol hyn, byddwn ni'n parhau i ddangos sut rydym ni'n gwneud cyfraniad cadarnhaol mewn amrywiol ffyrdd i Gymru ac i fywydau trigolion ein gwlad. Mae Cynllun Gweithredol 2013/14 yn adlewyrchu'r dewisiadau rhwng dulliau gwahanol a chystadleuol o ddarparu gwasanaethau, ac mae gan lawer gyfraniad pwysig i'w wneud yng Nghymru. Byddwn yn parhau i reoli ein materion ariannol yn ddarbodus yn ystod 2013/14 ac yn parhau i gynllunio er mwyn ymateb i heriau'r dyfodol fel y gallwn barhau i gynnal gwasanaethau rheng flaen a chyflawni'r Weledigaeth.

Mae ein grant refeniw wedi gostwng 4.3% dros y tair blynedd hyd at 2013/14, gostyngiad o 10% yn nhermau real. Bu gostyngiad o £325,000 (35%) yn ein grant cyfalaf cynnal a chadw yn 2011/12, ac

mae wedi parhau ar y lefel is hon dros yr un cyfnod. Yn ogystal, mae'r grant caffael sbesimenau wedi gostwng yn sylweddol, 50% y flwyddyn, dros yr un cyfnod, i £538,000 y flwyddyn.

Mae angen £300,000 a mwy arnom ym mhob blwyddyn ariannol i ariannu'r costau cynyddrannol ar gyfer staff cymwys. Bydd y cymorth grant, felly, yn parhau i edwino mewn termau real yn y dyfodol os yw'n parhau'n statig o ran arian parod.

Gwnaethom gynnydd sylweddol yn ystod y tair blynedd diwethaf, gan wneud arbedion ariannol o dros £1.3 miliwn drwy'r Cynlluniau Diswyddo Gwirfoddol a pheidio ag ailenwi swyddi hyd yma. Rydym wedi cymryd mesurau eraill hefyd drwy fuddsoddi mewn cynlluniau lleihau costau ynni, ac yn parhau i chwilio am arbedion pellach. Rydym hefyd yn bwriadu cynyddu ffrydiau incwm eraill, er enghraifft codi arian. Mae'r arbediad hwn, yn ogystal â'r arbedion a'r mesurau effeithlonrwydd eraill sy'n codi yn ystod y flwyddyn, a ategir gan y cynnydd yn y terfyn ariannol a ddygir ymlaen, yn golygu bod gennym rywfaint o hyblygrwydd wrth fynd i'r afael ag effaith y toriadau i'r grant cymorth

Er hynny, mae'n rhaid i ni ddod o hyd i £2.5 miliwn mewn arbedion ac incwm ychwanegol dros y tair blynedd nesaf yn sgil llai o incwm a chynnydd mewn costau.

Gan fod dros 80% o'n costau refeniw yn mynd tuag at dalu staff a 10% arall o'n cyllideb yn cael ei wario ar ynni a threthi busnes, ychydig iawn o hyblygrwydd sydd gennym ynglŷn â sut i wario ein harian. Mae angen adolygu strwythur y sefydliad er mwyn mynd i'r afael â'r diffyg. Byddwn yn gwneud iawn am y diffygion hyn drwy gyfuniad o arbedion costau cyflog cronrus a chynyddu incwm a'r cronfeydd wrth gefn.

Byddwn yn gweithredu Rhaglen Newid o fis Ebrill 2013, gan ganolbwyntio ein hadnoddau o'r newydd yn unol â'n blaenoriaethau strategol er mwyn cryfhau meysydd penodol o'n gwaith a gwneud arbedion. Nod y Rhaglen Newid yw sicrhau arbedion cronrus o £2.25 miliwn dros dair blynedd. Rydym yn ymgynghori â staff ynghylch cynigion y Rhaglen Newid a daw'r cyfnod ymgynghori hwn i ben ym mis Ebrill 2013. O ganlyniad, bydd ansicrwydd anorfod yn gysylltiedig â materion staffio ac adnoddau yn ystod 2013/14, ac er bod cyflawni'r Cynllun Gweithredol hwn yn bosibl, byddwn yn cadw golwg ar y sefyllfa ac yn addasu elfennau o'r cynllun yn ystod y flwyddyn, fel bo'r angen.

Disgwylir i'r incwm o ffynonellau heblaw am y Cymorth Grant, gynyddu £0.25 miliwn dros dair blynedd, yn seiliedig ar incwm cynyddol o'r meysydd codi arian ac ymchwil a chodi tâl am ymweliadau a hwylusir yn 2013/14.

Rydym wedi buddsoddi cryn dipyn o amser, ymdrech ac arbenigedd yn datblygu ein gweithgareddau masnachol dros y blynyddoedd diwethaf, nes bod trosiant ein his-gwmni masnachu yn werth tua £0.4 miliwn y flwyddyn bellach. Ond mae natur ei weithgareddau wedi golygu bod y cyni ariannol diweddar wedi effeithio ar hyn. Yn ystod 2012/13, fe wnaethom geisio lleddfu effeithiau ariannol y dirwasgiad drwy'n gwaith marchnata, gan bwysleisio mynediad am ddim er mwyn cynnal lefelau ymwelwyr cryf.

Mae'r mesurau a ddisgrifir uchod yn ein galluogi i leihau effaith y toriadau arfaethedig mewn cymorth grant ac ystyried ein cyfraniad at ddatblygiadau newydd fel aildatblygu Sain Ffagan. Er hynny, byddwn ni'n parhau i ddadlau dros adfer y gyllideb er mwyn osgoi toriadau yn y gwasanaeth yn y dyfodol. Mae'r toriadau cyllidebol wedi cael effaith andwyol ar waith cynnal a chadw'r ystâd. Rydym wedi adolygu'r rhaglen gynnal a chadw a byddwn yn parhau i wneud hynny er mwyn trefnu amserlen waith a fydd yn sicrhau mynediad diogel i'n safleoedd a buddsoddiad yn ein seilwaith TGCh.

Bydd torri'r grant caffael sbesimenau yn amharu ar allu'r Amgueddfa i ychwanegu at y casgliadau a pharhau i wneud gwaith ymchwil ar y lefel bresennol. Hefyd, bydd yn cael effaith ddifrifol ar ein gallu i ddenu arian ar sail y grant caffael sbesimenau, elfen lwyddiannus iawn o'n gwaith yn y blynyddoedd diwethaf. Er hynny, byddwn yn parhau i chwilio am ffynonellau posibl o arian cyhoeddus.

O gofio'r ansicrwydd economaidd parhaus yn y DU yn gyffredinol, mae posibilrwydd gwirioneddol y bydd ein Cymorth Grant yn cael ei docio ymhellach yn y dyfodol. Nod y toriadau a amlinellir yma yw ymateb i'r hyn sy'n hysbys i ni, sef y bydd Llywodraeth Cymru yn gostwng ei chyllid i ni. Efallai y bydd angen gwneud rhagor o arbedion yn y dyfodol. Mae'n hollbwysig bod ein gwariant yn cyd-fynd â'r adnoddau sydd ar gael yn y tymor byr, a'n bod ni yn y tymor canolig yn creu sefydliad mwy cadarn sy'n hyblyg ac yn gallu gwrthsefyll toriadau ariannol yn y dyfodol. Bydd hyn yn darparu mwy o sefydlogrwydd i'n staff yn y dyfodol.

2.0 Ein pwrpas a'n blaenoriaethau

2.1 Ein pwrpas

Amcan elusennol Amgueddfa Cymru, fel y nodwyd yn ein Siarter (a adolygwyd yn 2006) yw hyrwyddo addysg y cyhoedd:

- (i) yn bennaf, trwy ddarlunio'n gynhwysfawr wyddoniaeth, celfyddydau, diwydiant, hanes a diwylliant Cymru, neu sy'n berthnasol i Gymru, ac
- (ii) yn gyffredinol, drwy gasglu, cofnodi, cadw, egluro a chyflwyno gwrthrychau a phethau, a gwybodaeth gysylltiedig, boed yn gysylltiedig â Chymru ai peidio, y bwriedir iddynt wella dealltwriaeth ymhellach a hybu ymchwil.

2.2 Ein blaenoriaethau

Fel y nodwyd eisoes yn adran 1.0, amlinellir ein hymrwymiaidau strategol hirdymor yn y Datganiad o Weledigaeth a'n Map Gweledigaeth 3 blynedd.

Rydym yn rhannu'r un weledigaeth yn fras â'r corff sy'n ein hariannu, Llywodraeth Cymru, ac mae'r cynllun hwn yn cael ei lywio gan y Llythyr Cylch Gwaith blynyddol gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Atodiad A), ac wedi'i strwythuro o amgylch y deg Amcan Allweddol sydd yn ein Map Gweledigaeth 3 blynedd.

Agenda strategol Llywodraeth Cymru

Mae agenda strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2011 ymlaen wedi'i chynnwys yn y ddogfen *Rhaglen Lywodraethu*, dogfen sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n ceisio sicrhau bod pawb ohonom yn cyfrannu at greu Cymru'r dyfodol.

Mae ein gwaith yn cyd-fynd ag agenda strategol ehangach Llywodraeth Cymru, gan gyfrannu at y meysydd canlynol yn y *Rhaglen Lywodraethu*:

- **Diwylliant a Threftadaeth Cymru**
- **Twf a Swyddi Cynaliadwy**
- **Addysg**
- **Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru**
- **Cydraddoldeb**
- **Mynd i'r Afael â Thlodi**
- **Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd.**

Mae darparu gwasanaethau agored a hygyrch i bobl Cymru ac ymwelwyr â'n gwlad wrth wraidd ein Gweledigaeth ni. Rydym hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig at gyflawni'r ymrwymiaidau penodol canlynol yn y *Rhaglen Lywodraethu*:

- Datblygu ymhellach safle Sain Ffagan fel atyniad diwylliannol pwysig ac fel porth i Gymru ar gyfer ymwelwyr
- Parhau i gynnig mynediad am ddim i Amgueddfa Cymru er mwyn sicrhau ein bod yn cael cymaint o effaith â phosibl
- Datblygu potensial cyfryngau digidol i hybu diwylliant trwy wefan Casgliad y Werin Cymru a mentrau ar-lein eraill.

Yn ogystal, rydym wedi ymrwymo i hyrwyddo a chyfrannu at gyflawni Strategaeth Amgueddfeydd Cymru 2010-2015 Llywodraeth Cymru (gweler hefyd adran 4.6.1), dogfen allweddol sy'n amlinellu'r cyfeiriad strategol ar gyfer y sector amgueddfeydd yng Nghymru dros y pedair blynedd nesaf. Mae ein hamcanion yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni amrywiaeth eang o strategaethau Llywodraeth Cymru fel y nodir yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1. Mapio meysydd blaenoriaeth y Weledigaeth, amcanion y Map Gweledigaeth a Strategaethau Llywodraeth Cymru a gefnogir ganddynt

Darparu trwy amcanion y Map Gweledigaeth	Strategaethau Llywodraeth Cymru a gefnogir
Blaenoriaeth 1: Creu amgueddfeydd byw... lle mae'r casgliadau'n adrodd eu straeon mewn ffordd gliriach, a'r ymwelwyr yn profi bywyd ddoe a heddiw ac yn archwilio gwahanol bosibiliadau ar gyfer y dyfodol.	
Byddwn ni'n datblygu ein hamgueddfeydd o safon ryngwladol er mwyn ysbrydoli dysgu a chysylltu pobl â'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Byddwn ni'n cyfleu ein casgliadau a'n hatgofion ni i gyd trwy adrodd straeon perthnasol, ystyrlon ac addysgiadol.	<i>Rhaglen Lywodraethu:</i> Twf a Swyddi Cynaliadwy, Addysg, yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Diwylliant a Threftadaeth Cymru; <i>rhaglen Cymru Fyw; Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd; Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol; Iaith Fyw, Iaith Byw.</i>
Blaenoriaeth 2: Datblygu casgliadau llewyrchus... sy'n cael eu defnyddio'n dda, sy'n gynaliadwy ac yn tyfu.	
Byddwn ni'n datblygu ein hamgueddfeydd o safon ryngwladol er mwyn ysbrydoli dysgu a chysylltu pobl â'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Byddwn ni'n creu bri rhyngwladol. Byddwn ni'n denu cynulleidfaoedd penodedig â blaenoriaeth. Byddwn ni'n creu casgliadau a gwaith ymchwil cyfoes a pherthnasol o safon ryngwladol.	<i>Rhaglen Lywodraethu:</i> Twf a Swyddi Cynaliadwy, Addysg, yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Diwylliant a Threftadaeth Cymru; <i>rhaglen Cymru Fyw; Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol; Iaith Fyw, Iaith Byw.</i>
Blaenoriaeth 3: Canfod llwybrau i wneud synnwyr o'r byd... gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau sy'n addas ar gyfer gwahanol ddulliau dysgu, er mwyn creu mynediad cyfartal i'r casgliadau.	
Byddwn ni'n denu cynulleidfaoedd penodedig â blaenoriaeth. Byddwn ni'n cyfleu ein casgliadau a'n hatgofion ni i gyd trwy adrodd straeon perthnasol, ystyrlon ac addysgiadol. Byddwn ni'n defnyddio atebion rhithwir a'r cyfryngau newydd.	<i>Rhaglen Lywodraethu:</i> Twf a Swyddi Cynaliadwy, Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru, Addysg, Cydraddoldeb, Mynd i'r Afael â Thlodi, yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, Diwylliant a Threftadaeth Cymru; <i>Cynllun Gweithredu Gwrthdlodi; Strategaeth Cymru Ddigidol; rhaglen Cymru Fyw; Strategaeth Tlodi Plant.</i>
Blaenoriaeth 4: Dysgu trwy rannu... ein cynlluniau gyda'n hymwelwyr a chyd-ddatblygu'r ffyrdd y byddwn yn gweithio, er mwyn darparu mynediad ystyrlon i'r casgliadau i'r amrywiaeth o bobl sydd wedi ymgartrefu yng Nghymru.	
Byddwn ni'n denu cynulleidfaoedd penodedig â blaenoriaeth. Byddwn ni'n creu casgliadau a gwaith ymchwil cyfoes a pherthnasol o safon ryngwladol. Byddwn ni'n cyfleu ein casgliadau a'n hatgofion ni i gyd trwy adrodd straeon perthnasol, ystyrlon ac	<i>Rhaglen Lywodraethu:</i> Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru, Addysg, Cydraddoldeb, Diwylliant a Threftadaeth Cymru; <i>Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol; Strategaeth Tlodi Plant; Iaith Fyw, Iaith Byw.</i>

Darparu trwy amcanion y Map Gweledigaeth	Strategaethau Llywodraeth Cymru a gefnogir
addysgiadol. Byddwn ni'n ehangu ein partneriaethau cymunedol, strategol ac ariannol.	
Blaenoriaeth 5: Cyfleu... ein neges fel y daw Amgueddfa Cymru yn adnabyddus ledled y byd fel canolfan ddysg o safon ryngwladol.	
Byddwn ni'n creu bri rhyngwladol. Byddwn ni'n cyfleu ein casgliadau a'n hatgofion ni i gyd trwy adrodd straeon perthnasol, ystyrlon ac addysgiadol. Byddwn ni'n creu casgliadau a gwaith ymchwil cyfoes a pherthnasol o safon ryngwladol. Byddwn ni'n ehangu ein partneriaethau cymunedol, strategol ac ariannol. Byddwn ni'n defnyddio atebion rhithwir a'r cyfryngau newydd. Byddwn ni'n hyrwyddo cynaliadwyedd cyhoeddus, gwleidyddol ac ariannol.	<i>Rhaglen Lywodraethu: Twf a Swyddi Cynaliadwy, Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru, Addysg, Diwylliant a Threftadaeth Cymru; laith Fyw, laith Byw.</i>
Blaenoriaeth 6: Datblygu fel corff sy'n dysgu... trwy osod sgiliau dysgu wrth graidd ein holl waith.	
Byddwn ni'n cynnal ac yn ymestyn doniau, sgiliau proffesiynol a galluoedd craidd ein staff. Byddwn ni'n ehangu ein partneriaethau cymunedol, strategol ac ariannol.	<i>Rhaglen Lywodraethu: Twf a Swyddi Cynaliadwy, Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru, Diwylliant a Threftadaeth Cymru; laith Fyw, laith Byw.</i>
Blaenoriaeth 7: Cynyddu ein hadnoddau... fel bod gennym sail gref a chadarn i gyflawni ein Gweledigaeth at y degawd nesaf a thu hwnt.	
Byddwn ni'n hyrwyddo cynaliadwyedd cyhoeddus, gwleidyddol ac ariannol. Byddwn ni'n defnyddio dull strategol a masnachol i ddatblygu a dyrannu adnoddau.	<i>Rhaglen Lywodraethu: Twf a Swyddi Cynaliadwy, Diwylliant a Threftadaeth Cymru, Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned; Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd; Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol.</i>

Nodiadau i gyd-fynd â thabl 1 – y meysydd allweddol lle mae Amgueddfa Cymru'n cyfrannu at y Rhaglen Lywodraethu.

Twf a Swyddi Cynaliadwy – buddsoddi mewn swyddi; cefnogi twristiaeth; creu cyfleoedd prentisiaeth; gweithio mewn ffordd gynaliadwy.

Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru – mentrau cyfryngau newydd; partneriaethau cydweithredol.

Addysg – ysbrydoli dysgu; cefnogi profiadau blynyddoedd cynnar.

Cydraddoldeb – datblygu cyfleoedd cyfartal.

Mynd i'r Afael â Thlodi – mynd i'r afael â thlodi cyfranogi.

Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd – byw o fewn cyfyngiadau amgylcheddol; ymchwil yn sail i ecosystemau iach a llefydd cynaliadwy.

Diwylliant a Threftadaeth Cymru – yn benodol trwy ddatblygu Sain Ffagan a pharhau i gynnig mynediad am ddim; yn gyffredinol trwy gynyddu cyfranogiad ac ehangu mynediad; targedu teuluoedd incwm isel; hyrwyddo'r Gymraeg.

Yn ogystal â'n gwaith craidd fel yr amlinellir yn ein Siarter a'n rhwymedigaethau cyfreithiol ac achredu (gweler Adran 3.0), mae meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn i ddod, fel y nodir yn y Llythyr Cylch Gwaith (Atodiad A), fel a ganlyn:

Galluogi holl aelodau'r gymdeithas i weld a defnyddio casgliadau a gwasanaethau'r Amgueddfa ledled Cymru, a hyrwyddo hynny, gan dalu sylw arbennig i anghenion cymunedau difreintiedig a grwpiau lleiafrifol.

Rhoi'r projectau cyfalaf a'r rhaglenni gweithgareddau sydd wedi'u nodi fel blaenoriaethau yng Ngweledigaeth yr Amgueddfa ar gyfer y dyfodol ar waith, a pharhau i chwilio am ffrydiau ariannu ychwanegol ar eu cyfer.

Cyflwyno rhaglen estynedig o weithgareddau partneriaeth, gan gynnwys rhai gyda chyrff eraill a noddir gan Lywodraeth Cymru ym Mhortffolio'r Gweinidog, fel bod casgliadau'r Amgueddfa ar gael yn fwy eang ledled Cymru, a chyfrannu at y gwaith o gyflwyno gwasanaeth treftadaeth a diwylliant mwy cydgysylltiedig.

Datblygu proffil casgliadau a gweithgareddau ymchwil yr Amgueddfa yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.

Gwella a rheoli casgliadau, ystadau ac adnoddau'r Amgueddfa yn effeithiol.

Mae'r gweithgareddau a fydd yn cyflawni amcanion yn y meysydd hyn dros y 12 mis nesaf wedi'u nodi yn adran 4.0 – Mentrau Strategol 2013/14. Nodir y rhain gyda'r symbol * fel 'Amcanion y Llythyr Cylch Gwaith', ymhlith ein casgliad llawn o weithgareddau.

Dull cyflawni

Yn unol â chais y Llythyr Cylch Gwaith, bydd yr Amgueddfa yn adrodd ar y cynnydd diweddaraf yn erbyn y cerrig milltir cyflawni bob chwarter. Hefyd, byddwn yn monitro a gwerthuso ein perfformiad trwy ddefnyddio amryw o ddulliau meintiol ac ansoddol a nodwyd ym mhecyn *EvAluAtE*, a amlinellir yn Adran 5.0 y cynllun hwn. Byddwn yn defnyddio hwn i fesur llwyddiant ein gwaith yn erbyn amcanion ein gweledigaeth, ac i sbarduno ein gwelliant a'n datblygiad parhaus fel sefydliad sy'n dysgu.

3.0 Ymrwymïadau craidd

Mae ein gwaith ni fel corff amgueddfeydd cenedlaethol Cymru yn cynnwys nifer o ymrwymïadau cyflenwi craidd. Mae'r adran hon yn cynnwys amlinelliad o'r pethau y mae'n rhaid i ni eu gwneud o flwyddyn i flwyddyn er mwyn bodloni ein rhwymedigaethau statudol, cyfreithiol, siarter, achredu a llywodraethu.

Mae'r symbol * yn cyfeirio at yr amcanion a'r tasgau penodol a nodir yn y Llythyr Cylch Gwaith (Atodiad A).

Yn ystod 2013/2014, byddwn yn parhau i:

- sicrhau ein bod yn cael ein llywodraethu yn unol â'r Siarter Brenhinol ac egwyddorion Nolan *
- yn unol â'n Siarter, sicrhau ein bod yn ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd
- datblygu a gofalu am y casgliadau cenedlaethol, a gedwir er ymddiriedaeth i bobl Cymru, yn unol â safonau rheoli a storio rhyngwladol, a gweithredu fel rhan o fframwaith cyfreithiol a moesegol ar gyfer datblygu casgliadau (polisiâu caffael a gwaredu) *
- bod yn ganolfan ymchwil o fri a darparu arbenigedd a safbwynt Cymreig ym mhob maes casglu, i sefydliadau ac unigolion ledled Cymru, y DU ac yn rhyngwladol
- darparu'r mynediad llawnaf posibl, yn uniongyrchol ac yn ddigidol, i'r casgliadau a'r wybodaeth sy'n gysylltiedig â nhw *
- rhoi gofal o'r radd flaenaf i eitemau ar fenthyg o amgueddfeydd a sefydliadau eraill
- agor ein saith amgueddfa genedlaethol i'r cyhoedd heb godi tâl mynediad *
- cadw ein statws fel amgueddfa achrededig
- sicrhau diogelwch ein casgliadau
- rhoi'r casgliadau cenedlaethol ar fenthyg i ganolfannau ledled Cymru, y DU ac yn rhyngwladol
- sicrhau cynrychiolaeth ar bwyllgorau a phaneli o bwys
- cynnal gweithlu amrywiol a chynrychiadol
- helpu i ddatblygu staff trwy gyfleoedd hyfforddi, datblygiad proffesiynol parhaus a thrwy gynllunio ar gyfer olyniaeth
- rhoi'r Strategaeth Diogelu Plant ac Oedolion Agored i Niwed (y strategaeth Amddiffyn Plant gynt) a'i gweithdrefnau ar waith
- annog gwirfoddolwyr trwy gyfrwng rhaglen wirfoddoli gynhwysfawr

- cefnogi, cynnal a rheoli'r seilwaith a gwasanaethau TGCh er mwyn darparu systemau diogel, effeithlon ac effeithiol sy'n cynnig gwerth am arian
- sicrhau bod ein holl safleoedd yn groesawgar, yn cael eu cynnal yn dda a'u bod yn llefydd glân a diogel i bob ymwelydd, staff a rhanddeiliad
- cynnal a chadw'r adeiladau a roddwyd i'n gofal yn unol â'r gofynion statudol
- gweithio'n gynaliadwy, yn unol ag Adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006; rydym ni wedi ymrwymo i Ddatblygu Cynaliadwy, gan sicrhau bod ein hamgueddfeydd a'n cynlluniau nid yn unig yn gynaliadwy, ond ein bod hefyd yn addysgu am ddatblygu cynaliadwy trwy ddehongli ein casgliadau *
- sicrhau cydraddoldeb ym mhopeth a wnawn, yn unol ag Adran 77 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a geir yn Neddf Cydraddoldeb 2010
- hyrwyddo'r Gymraeg yn ein harferion busnes a thrwy ein rhaglenni addysg, fel y nodwyd yn adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 *
- rhoi cyngor i grwneriaid a gweinyddwyr Achosion Trysorau yng Nghymru yn unol â'r Ddeddf Trysor
- gweithredu'r Cynllun Henebion Cludadwy yng Nghymru *
- cynnal Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn unol â thelerau'r cytundeb treigl cyfreithiol 25 mlynedd gyda Dinas a Sir Abertawe, yn unol â Chytundeb Gweithredol 6 Hydref 2005
- gweithio mewn partneriaeth, gan gefnogi dyletswydd Llywodraeth y Cynulliad dan adrannau 73, 74 a 75 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 i hyrwyddo buddiannau Llywodraeth Leol, y Sector Gwirfoddol a'r Sector Busnes *
- rhoi ein Strategaeth Tlodi Plant ein hunain ar waith yn unol â Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 *
- sicrhau ein bod yn bodloni deddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth, Diogelu Data, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol ac Iechyd a Diogelwch
- sicrhau ein bod yn cydymffurfio â rhwymedigaethau statudol mewn perthynas â Rheoli Gwybodaeth, Diogelwch Gwybodaeth a Hawliau Eiddo Deallusol
- rheoli'r holl brojectau adeiladu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r holl ofynion statudol a rheoliadol
- sicrhau bod cynlluniau corfforaethol a gweithredol ar waith sy'n bodloni gofynion Llywodraeth Cymru fel y nodir hwy yn y Llythyr Cylch Gwaith a'n hamcanion strategol, a bod y rhain yn cael eu monitro a'u gwerthuso
- sicrhau atebolrwydd cyhoeddus h.y. priodoldeb a rheoleidd-dra trwy gydymffurfio â'n rheoliadau cyllid a chaffael, rheolaethau mewnol a chydlynu archwiliad mewnol

- sicrhau bod staff a chyflenwyr yn cael eu talu, a chyflawni'r targedau taliadau prydlon yn unol â'r dyletswyddau statudol
- paratoi ein hadroddiadau a chyfrifon statudol (a rhai'r is-gwmni masnachu)
- sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r deddfau trethiant a chwblhau ffurflenni treth h.y. TAW a PAYE
- cwblhau'r holl ffurflenni statudol eraill h.y. y Comisiwn Elusennau
- cymryd camau priodol i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor Cynllun Pensiwn yr Amgueddfa. *

4.0 Mentrau Strategol i'w cyflawni yn ystod 2013/2014

Mae'r symbol (*) yn nodi'r amcanion penodol a nodir yn y Llythyr Cylch Gwaith (Atodiad A).

Pobl Cymru

4.1 Byddwn ni'n datblygu ein hamgueddfeydd o safon ryngwladol er mwyn ysbrydoli dysgu a chysylltu pobl â'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol.

4.1.1 Parhau ag ailddatblygiad ffisegol Sain Ffagan. * JW-D

Cerrig milltir:

- Bwrw ymlaen ag ailddatblygiad ffisegol Sain Ffagan yn unol â chynllun a strategaethau'r project.
- Caffael gwaith TGCh, gwasanaethau ar gyfer llety dros dro, gwaith ar gyfer y maes parcio ychwanegol, gwaith ar gyfer addasu'r crochendy yn gaffi ac astudiaeth ddichonoldeb *CHP* erbyn mis Mehefin 2013.
- Cyflawni'r amodau cynllunio yn ôl y gofyn a chael sêl bendith rheoliadau adeiladau. Rheoli'r project drwy gamau F/G–L Sefydliad Brenhinol Penseiri Prydain.
- Gwahodd tendrau am y gwaith a phenodi prif contractwr yn ystod hydref 2013.
- Pennu dulliau rheoli a sicrhau'r defnydd gorau o gyllid erbyn Ebrill 2013.
- Parhau i godi arian tuag at broject ailddatblygu Sain Ffagan fel y brif flaenoriaeth yn erbyn strategaeth codi arian ddiwygiedig Sain Ffagan, parhau i ddatblygu cynlluniau creu incwm ar gyfer y safle a pharhau i godi ymwybyddiaeth o'r ailddatblygiad (yn fewnol ac yn allanol) drwy gynllun cyfathrebu penodol a gynhyrchir erbyn Ebrill 2013.
- Datblygu a llunio taflen a map newydd, Cymraeg a Saesneg, ar gyfer y safle erbyn mis Medi 2013, er mwyn esbonio'r newidiadau i'r safle yn sgil y gwaith ailddatblygu.

4.1.2 Parhau i ddatblygu'r cysyniad o Amgueddfa Hanes Natur yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. * JW-D

Cerrig milltir: Datblygu'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Project Datblygu Cysyniad i'w gymeradwyo gan Grŵp Comisiynu'r Project ac er mwyn dechrau'r broses o gyflawni'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt erbyn mis Medi 2013.

4.1.3 Yn unol ag uwchgynllun llawr gwaelod Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, adleoli elfennau o arddangosiad y casgliadau Archaeoleg a Niwmismateg i Sain Ffagan. JW-D

Cerrig milltir:

- Gweithio ar fframwaith y ddogfen Uwchgynllun ar gyfer Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd fel ei bod yn dangos y ffordd strategol ymlaen, erbyn mis Mawrth 2014.
- Parhau i gynnal yr asesiadau risg angenrheidiol a datblygu strategaeth ar gyfer ail-leoli'r casgliadau i'w harddangos yn Sain Ffagan, ac atebion dros dro, erbyn mis Medi 2013.

- Paratoi cynllun project, erbyn mis Rhagfyr 2013, er mwyn gweddnwedd oriel *Gwreiddiau* yn ôl i fod yn fan arddangos dros dro, a dechrau'r gwaith erbyn mis Chwefror 2014.

4.1.4 Llunio cynlluniau project ar gyfer ailddatblygu Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, gan gynnwys strategaeth ariannu ac ymgorffori partneriaethau strategol. * **MR**

Cerrig milltir: Drafftio dogfennau cynllunio yn barod ar gyfer cais Rownd 1 Cronfa Dreftadaeth y Loteri, a chwblhau'r drafft cyntaf erbyn mis Mawrth 2014.

4.1.5 Datblygu cynlluniau ar gyfer y Felin a Thŷ Pen Pownd yn Amgueddfa Wlân Cymru. **MR**

Cerrig milltir: Cyflwyno cais i gyllidwr posibl ym mis Gorffennaf 2013 gyda'r bwriad o ddatblygu'r amcan hwn erbyn Mawrth 2014, yn amodol ar gais ariannol llwyddiannus.

4.1.6 Ailadeiladu tafarn y Vulcan Hotel a gorsaf heddlu Ffynnon Taf yn Sain Ffagan. **MR**

Cerrig milltir: Cael caniatâd cynllunio i ail-leoli'r Vulcan erbyn mis Medi 2013. Cwblhau'r seilwaith ar gyfer y dafarn erbyn mis Rhagfyr 2013 a'r orsaf heddlu erbyn mis Mawrth 2014. Dechrau adeiladu tafarn y Vulcan â dyddiad dehongli o 1915 erbyn mis Mawrth 2014.

4.2 Byddwn ni'n creu bri rhyngwladol

4.2.1 Datblygu Strategaeth Ryngwladol gynhwysfawr trwy gydweithio â Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill, gan ddiffinio amserlenni clir a fframweithiau ymgysylltu.* **DA**

Cerrig milltir: Datblygu a chyhoeddi ein Strategaeth Ryngwladol erbyn Mehefin 2013 a dechrau ei rhoi ar waith erbyn Medi 2013. Datblygu cynllun Cysylltiadau Cyhoeddus a'r Wasg Ryngwladol i gyd-fynd â gweithredu'r Strategaeth Ryngwladol erbyn mis Medi 2013.

4.2.2 Hyrwyddo rôl arweiniol Amgueddfa Cymru mewn perthynas â chasgliadau a gweithgareddau ymchwil yn fyd-eang yn y gwyddorau, celf a hanes. * **JW-D**

Cerrig milltir: Cymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau i hyrwyddo ein rôl allweddol, er enghraifft:

- Cyflwyno papurau mewn cynadleddau rhyngwladol gan gynnwys Catania (Sicilia, Mehefin 2013) a chyfarfod Geowyddorau'r Undeb Ewropeaidd (Fiena, Ebrill 2013).
- Paratoi ar gyfer cynnal cyfarfod rhyngwladol y Gymdeithas Gwarchod Casgliadau Hanes Natur (Caerdydd, Mehefin 2014), ar ôl sicrhau bod cynlluniau amlinellol ar waith erbyn mis Rhagfyr 2013, a chyfarfod Daeareg ac Adnoddau Mwyngloddio a Chwilota am Fwynau gyda'r *Geological Society of London*, yr *Australian Institution of Mining and Metallurgy* a Phrifysgol Caerdydd (Hydref 2013).
- Parhau i weithio gydag *Artes Mundi* tuag at *Artes Mundi VI* yn 2014-5, gan adeiladu ar lwyddiant *Artes Mundi V* a gafodd glod a bri rhyngwladol.
- Datblygu cynlluniau cyhoeddi a chais ariannol, erbyn mis Rhagfyr 2013, ar gyfer cwblhau gwaith cloddio o bwysigrwydd rhyngwladol yn yr Ogofâu Palaeolithig yn Sir Benfro, sy'n cynnwys ailasesu newid yn yr hinsawdd.
- Ymateb i ddymuniad Llywodraeth Lwcsembwrg i ddatblygu Amgueddfa Lechi Genedlaethol, a'u helpu fel bo'r angen.
- Mynychu cyfarfodydd y Rhwydwaith Arddangosfeydd Ewropeaidd i ddatblygu partneriaethau posibl i'r dyfodol gydag amgueddfeydd eraill y Rhwydwaith dramor.

Gweler Atodiad B am grynodeb o'n holl weithgarwch ymchwil.

4.2.3 Trefnu taith newydd i'r Unol Daleithiau ar y cyd â'r American Federation of Arts (AFA) yn 2015 * **MR**

Cerrig milltir: Cwblhau'r contract a pharatoi testun y catalog erbyn mis Mawrth 2014 a pharhau i baratoi arddangosfa *Rolling Hills*, a fydd yn agor yn Palm Beach fis Ionawr 2015 cyn mynd ymlaen i dair canolfan arall.

4.3 Byddwn ni'n denu cynulleidfaoedd penodedig â blaenoriaeth (teuluoedd, ymwelwyr a phobl ifanc)

4.3.1 Dechrau cyflwyno'r Cynllun Gweithgarwch ar gyfer project ailddatblygu Sain Ffagan, gan gydweithio â phartneriaid a chynulleidfaoedd targed. * **JW-D**

Cerrig milltir:

- Parhau i weithio gyda'r naw fforwm cyfranogol a sefydlwyd yn 2011 i ddatblygu cynlluniau ac arddangosfeydd a chyflwyno cyfalaf diwylliannol ar gyfer pob grŵp cymdeithasol.
- Penodi cydlynedd gwirfoddolwyr erbyn mis Rhagfyr 2013.
- Creu rhaglenni i bobl ifanc, gan gynnwys cynllun preswyl 'crefft a chreadigrwydd' erbyn mis Medi 2013, a diwrnod o ddigwyddiadau misol i bobl ifanc erbyn mis Gorffennaf 2013.

4.3.2 Bwrw ymlaen â phroject *Our Museum* Sefydliad Paul Hamlyn trwy weithio gyda phartneriaid y trydydd sector i ddatblygu cyfleoedd gwirfoddoli yn ôl anghenion cynulleidfaoedd. **JW-D**

Cerrig milltir: Cydweithio â phum sefydliad cymunedol partner i sefydlu fframwaith ar gyfer model gwirfoddoli cynaliadwy ar gyfer Sain Ffagan trwy gyfrwng y project *Our Museum* sydd wedi'i ariannu gan Sefydliad Paul Hamlyn, gan gynnwys cyfarfodydd bob deufis yn ystod 2013/14. Sicrhau bod adroddiadau'r cyllidebwr yn cael eu cwblhau a'u cyflwyno'n brydlon.

4.3.3 Ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio system archebu ar gyfer swyddogaethau eraill. **JL/NW**

Cerrig milltir: Datblygu'r potensial a'r defnydd o system archebu electronig, erbyn mis Mai 2013, er mwyn dechrau codi tâl am raglenni ysgol gwerth ychwanegol o fis Medi 2013 ymlaen, a rhaglenni/digwyddiadau cynhyrchu incwm eraill. Sicrhau bod y system archebu'n gallu hepgor ffioedd i ysgolion â lefelau uchel o blant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a/neu statws Cymunedau yn Gyntaf, a'i bod hefyd yn darparu data i feincnodi effaith codi tâl am archebion gwerth ychwanegol.

4.3.4 Datblygu'r pwyslais o weithio gyda chlystyrau Cymunedau yn Gyntaf gan dargedu ein cynulleidfaoedd blaenoriaeth, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi. * **PAWB**

Cerrig milltir: Sicrhau bod amrywiaeth eang o weithgareddau'n cael eu darparu gan gynnwys:

- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu partneriaeth gymunedol CAER trwy gynnig y Pentref Celtaidd fel canolfan hyfforddi.
- Penodi Lleoliad Bwrsariaeth Hyfforddiant Archaeolegol Cymunedol, Cyngor Archaeoleg Prydain, erbyn mis Mai 2013.
- Cynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer creu astudiaethau bioamrywiaeth cymunedol erbyn mis Rhagfyr 2013.
- Cefnogi'r bartneriaeth gyda phroject opera gymunedol Celf ar y Blaen sy'n seiliedig ar waith cloddio gan yr Adran Archaeolegol a Niwmismateg a Phrifysgol Caerdydd mewn llys canoloesol cynnar yng ngrannog Llyn Syfaddan (o fewn ardal Cymunedau yn Gyntaf Merthyr Tudful) erbyn mis Mawrth 2014.
- Yn Big Pit, datblygu a threialu adnoddau iaith a chwarae newydd i deuluoedd, mewn cydweithrediad â Chydgysylltwyr Dechrau Da ac Iaith a Chwarae yn Nhorfaen.

- Drwy Amgueddfa Lechi Cymru, datblygu project Cofeb yn ardal Cymunedau yn Gyntaf Dyffryn Nantlle mewn cydweithrediad ag amryw o randdeiliaid lleol, gan gynnwys ysgolion a darparwyr tai cymdeithasol, a sicrhau bod cynlluniau ar waith erbyn mis Mawrth 2014 er mwyn cyflwyno'r arddangosfa o fis Gorffennaf 2014 ymlaen.

Gweler Atodiad C am fwy o fanylion am fentrau mewn ardaloedd/partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf.

4.3.5 Parhau i gyflawni yn erbyn y Cynlluniau Gweithredu Datblygu Cynulleidfaoedd ar gyfer pob amgueddfa ac adolygu a diwygio cynlluniau. * **MR**

Carreg filltir: Creu Cynlluniau Gweithredu Datblygu Cynulleidfaoedd ar gyfer cynulleidfaoedd â blaenoriaeth yn seiliedig ar gasgliadau Astudiaeth Proffil Ymwelwyr, erbyn mis Medi 2013.

4.3.6 Adolygu strategaeth addysg y sefydliad trwy ymgynghori, er mwyn annog ymgysylltu â chynulleidfaoedd blaenoriaeth, yn enwedig ymgysylltu â chymunedau difreintiedig. **JL**

Cerrig milltir: Cyhoeddi a hyrwyddo'r strategaeth, yn dilyn ymgynghoriad, erbyn mis Mawrth 2014.

4.3.7 Rhoi ein Strategaeth Tlodi Plant ar waith. * **JL/DA**

Cerrig milltir:

- Adolygu effaith blwyddyn gyntaf ein Strategaeth Tlodi Plant, gan gyhoeddi crynodeb o'r llwyddiannau allweddol.
- Paratoi cynllun gweithredu ar gyfer 2013/14 a chyhoeddi'r pecyn adnoddau *Gweddnewid Dyfodol Plant* erbyn mis Ebrill 2013.
- Cynnal seminar, gan ddenu arbenigwyr o bob cwr o'r DU, er mwyn creu canllawiau arfer gorau mewn perthynas ag amgueddfeydd a thlodi plant erbyn mis Mai 2013.

4.4 Byddwn ni'n cyflwyno casgliadau a gwaith ymchwil cyfoes a pherthnasol o safon ryngwladol.

4.4.1 Adolygu a diwygio ein strategaethau casgliadau gan gadarnhau ein blaenoriaethau ar gyfer gwaith casglu yn y dyfodol. **JW-D**

Carreg filltir: Cwblhau erbyn mis Mawrth 2014, gan ymgysylltu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid.

4.4.2 Adolygu'r Strategaeth Ymchwil. JW-D

Carreg filltir: Cynnal adolygiad erbyn mis Mawrth 2014, paratoi drafft cyntaf o adroddiad ar gyfer Bwrdd yr Ymddiriedolwyr erbyn mis Mai 2014.

Gweler Atodiad B am fanylion y rhaglen ymchwil.

4.4.3 Cwblhau'r adolygiad o systemau a chyfrifoldebau am reoli casgliadau gan gynnwys datblygu cynllun strategol ar gyfer cadwraeth a chynnal gwerthusiad ac adolygiad o storfeydd yn unol â'r projectau ailddatblygu sylweddol. **JW-D**

Cerrig milltir: Rhoi'r Rhaglen Newid ar waith yn y gwasanaethau casgliadau er mwyn cwblhau'r adolygiad a dechrau gweithio ar gynllun strategol ar gyfer cadwraeth erbyn mis Mawrth 2014.

4.4.4 Datblygu ymhellach fynediad ar-lein i gronfeydd data casgliadau ac ymchwil yn arbennig er mwyn ehangu eu cwmpas. **JW-D**

Cerrig milltir: Bydd datblygiad tymor hwy cronfeydd data'r casgliadau ar-lein yn dibynnu ar ganlyniad y Strategaeth Ddigidol (gweler 4.8.1) ond mae'r cerrig milltir ar gyfer eleni yn cynnwys:

- Dechrau rhoi Strategaeth y Cyfryngau Newydd ar gyfer ailddatblygu Sain Ffagan ar waith erbyn Mehefin 2013.
- Cwblhau project digideiddio dan arweiniad consortiwm a ariennir gan y Cydbwyllgor Systemau Gwybodaeth (JISC) o sbesimenau ffosil Prydain ac Iwerddon, gan arwain at gronfa ddata ar-lein sy'n agored i bawb erbyn mis Mawrth 2014.
- Dechrau'r gwaith o ehangu'r gronfa ddata Casgliadau Celf Ar-lein (rhestr o'r holl baentiadau a cherfluniau ar hyn o bryd) i gynnwys yr holl gasgliadau celf, erbyn Rhagfyr 2013.
- Paratoi cronfeydd data o'r casgliadau i'r cyhoedd wrth ailddatblygu Sain Ffagan, gyda phwyslais ar yr archifau sain, ffilm a'r archifau ffotograffig a dogfennol, erbyn mis Mawrth 2014.

4.4.5 Ymchwilio i botensial gwefan Casgliad y Werin Cymru a chyfranogiad cymunedol o ran ymgysylltu a chasglu. * **NW/JL**

Cerrig milltir:

- Cyflwyno'r gweithgareddau a ddiffinnir yng Nghynllun Busnes Casgliad y Werin Cymru 2013/14, fel y cytunwyd gyda'r Bartneriaeth Ffederal, gan gynnwys ailwampio technegol.
- Rhoi cyflwyniadau a chynnal trafodaethau o fewn Amgueddfa Cymru, a chyda phartneriaid, ar ddulliau posibl o ddefnyddio gwefan Casgliad y Werin Cymru mewn perthynas â chyfranogiad cymunedol, o ran ymgysylltu a chasglu, erbyn mis Medi 2013.

- Ar y cyd â Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru, datblygu Cynllun Gweithredu Datblygu Cynulleidfaoedd ar gyfer Casgliad y Werin Cymru gan gynnwys cyfranogiad cymdeithasol ar gyfer 2014-2017, erbyn mis Rhagfyr 2013.

4.4.6 Datblygu partneriaethau strategol ac ymchwilio i'r posibilrwydd o greu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda chyrrff ymchwil/casglu perthnasol, fel yr Ardd Fotaneg Genedlaethol. * **JW-D**

Cerrig milltir:

- Cwblhau Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth neu Gytundeb Consortiwm rhwng partneriaid sydd â diddordeb posibl yn Safle Coedwig Ffosil Brymbo, gan gynnwys Grŵp Treftadaeth Brymbo a Brymbo Developments Ltd, gan gynnwys trafodaethau gyda'r Cyngor Cefn Gwlad, Grŵp Safle Daearegol a Geomorffaid Pwysig Rhanbarthol y Gogledd-ddwyrain, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Gwasanaethau Amgueddfa Wrecsam erbyn Rhagfyr 2013.
- Ystyried Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, y corff amgylcheddol newydd i Gymru, erbyn mis Mawrth 2014.
- Bwrw ymlaen â chytundebau gydag Amgueddfa Hanes Cenedlaethol Japan, *Yale Center for British Art*, Amgueddfa Three Gorges, Chongqing a Ffotogallery/Prifysgol Cymru Casnewydd ar gyfer projectau'r dyfodol, erbyn mis Mawrth 2014.

4.4.7 Adeiladu ar statws Sefydliad Ymchwil Annibynnol (*IRO*) yr Amgueddfa er mwyn cynyddu'r capasiti ymchwil a meithrin cysylltiadau â sefydliadau addysg uwch eraill, gan gyflwyno ceisiadau ariannu i *AHRC* a *NERC* a cheisiadau eraill mewn partneriaeth â sefydliadau addysg uwch. **JW-D**

Cerrig milltir i gynnwys: Cryfhau ein statws *IRO* drwy baratoi ystod o gynigion a cheisiadau ar gyfer projectau ymchwil cydweithredol, gyda ninnau'n gweithredu fel y sefydliad arweiniol, gyda chymorth y Swyddog Projectau Ymchwil newydd, erbyn mis Rhagfyr 2013. Penodi Pennaeth Ymchwil erbyn Mawrth 2014.

Gweler Atodiad B am yr amrywiaeth o fentrau ymchwil.

4.4.8 Cyfrannu at gyflawni cynllun Llywodraeth Cymru, *Cymru Fyw – Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol*.

Cerrig milltir i gynnwys: Parhau i ystyried y ddarpariaeth bresennol a'r potensial ar gyfer hyfforddiant a chyflwyno tacsonomi yng Nghymru mewn cydweithrediad â Phartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

4.4.9 Arwain gwaith grŵp Ymgysylltu â'r Cyhoedd Hanes Cymru i ddatblygu mentrau cydweithredol a gwaith partneriaeth strategol ledled y sector. * **DA**

Cerrig milltir:

- Cadeirio a darparu cymorth ysgrifenyddol i'r grŵp, gan gefnogi tri-pedwar cyfarfod yn ystod 2013/2014.
- Ymchwilio i'r modd mae pobl yn deall hanes, er mwyn darparu tystiolaeth ar gyfer gwaith y dyfodol.

- Pwysleisio i noddwyr bwysigrwydd hanes llafar a dogfennol ar lefel leol, a chydweithredu â darlledwyr yng Nghymru i adeiladu ar lwyddiant *The Story of Wales*.

4.4.10 Cefnogi Cadw i roi Strategaeth Amgylchedd Hanesyddol Cymru ar waith, a chyfrannu at ddatblygu'r Bil Treftadaeth.

Cerrig milltir: Sicrhau cynrychiolaeth ar y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol, a sicrhau cefnogaeth i'r mentrau hyn yn unol â'r bwriad.

4.5 Byddwn ni'n cyfleu ein casgliadau a'n hatgofion i gyd trwy adrodd straeon perthnasol, ystyrion ac addysgiadol.

4.5.1 Ysgrifennu Strategaeth Arddangosfeydd newydd ar gyfer y sefydliad, ac fel rhan o hyn, datblygu'r potensial ar gyfer creu arddangosfeydd mawr ar raddfa fwy, sy'n para'n hirach, o 2014 ymlaen, gyda chynllun busnes a chyllideb briodol. **JL**

Carreg filltir: Paratoi strategaeth ddrafft erbyn mis Hydref 2013.

4.5.2 Cynnal project ymchwil a datblygu arddangosfa i ddathlu trichanmlwyddiant geni Richard Wilson yn 2013/4. **JW-D**

Cerrig milltir: Cwblhau traethawd catalog am Wilson fel artist Cymreig, a chatalogio'r gweithiau gan Wilson sydd yn ein casgliadau. Mynd i'r afael â'r logisteg o gyflwyno'r arddangosfa yn Amgueddfa Cymru o fis Gorffennaf 2014 a Yale o fis Chwefror 2015. Cynllunio'r gwaith gosod a'r rhaglen ategol erbyn mis Rhagfyr 2013. Codi arian i gefnogi'r arddangosfa.

4.5.3 Datblygu cynigion ar gyfer arddangosfeydd yn ystod 2014 sy'n canolbwyntio ar gan mlynedd ers dechrau'r Rhyfel Mawr, gyda'r posibilrwydd o deithio i ganolfannau eraill. **JL**

Cerrig milltir: Parhau i ddatblygu'r project hwn, a helpu i gefnogi ymagwedd Cymru gyfan tuag at weithgareddau cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf. Creu straeon digidol i'w defnyddio yn arddangosfa *National Memory, Local Story* y *National Portrait Gallery* a hefyd yn ein hamgueddfeydd ni, er mwyn coffau'r Rhyfel Byd Cyntaf trwy gyfrwng project partner rhyng-amgueddfeydd wedi'i ariannu gan Sefydliad Paul Hamlyn.

4.5.4 Cyflwyno rhaglen dreigl o adnewyddiadau ac arddangosfeydd dros dro ym mhob amgueddfa. **JL**

Gweler Atodiad D, Rhaglen Arddangosfeydd, am arddangosfeydd dros dro.

4.5.5 Parhau i gyflwyno rhaglen arddangosfeydd treigl dros dro yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Big Pit, Amgueddfa Wlân Cymru, Amgueddfa Lechi Cymru a chanolfannau partner. **JL/MR**

Cerrig milltir: Mynd ag arddangosfa *Archaeopteryx* ar daith ledled y wlad, gan gynnwys Amgueddfa Wrecsam am y cyfnod hyd at fis Mehefin 2013 ac Amgueddfa Pont-y-pŵl rhwng Gorffennaf a Medi 2013. Cynhyrchu rhaglen integredig yn cynnwys arddangosfa, llyfryn a digwyddiadau i ddathlu pen-blwydd amgueddfa Big Pit yn 30 oed. Diwygio a golygu arddangosfa *Dathlu'r Deugain* Amgueddfa Lechi Cymru i'w harddangos yn ein hamgueddfeydd diwydiannol eraill.

4.5.6 Gwerthuso llwyddiant yr Amgueddfa Gelf Genedlaethol er mwyn llywio penderfyniadau ynglŷn ag arddangosiadau celf yn y dyfodol yn dilyn adroddiad ABL (Hydref 2008) sy'n argymhell y dylid creu Amgueddfa Gelf Genedlaethol ac Amgueddfa Hanes Natur ar safle Parc Cathays. **JL/MR**

Cerrig milltir: Cwblhau Gwerthusiad Ôl-project o'r Amgueddfa Gelf Genedlaethol erbyn Rhagfyr 2013.

4.6 Byddwn ni'n ehangu ein partneriaethau cymunedol, strategol ac ariannol.

4.6.1 Cynorthwyo CyMAL wrth iddo fwrw ymlaen â Strategaeth Amgueddfeydd Llywodraeth Cymru. * **DA/MR**

Cerrig milltir i gynnwys:

- Cynorthwyo CyMAL wrth iddo fwrw ymlaen â hyn, fel aelod allweddol o grŵp llywio'r Strategaeth, a gweithredu camau a amlinellwyd mewn dogfen ar wahân, *Strategaeth Amgueddfeydd – Cynllun Gweithredu Amgueddfa Cymru*.
- Gweithio'n agos gyda Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru a chefnogi'u datblygiad.
- Cyfrannu'n llawn at y grŵp llywio a chyflawni project y Ffederasiwn ar Adolygiad o'r Casgliadau Hanes Natur yng Nghymru, a chynnal swyddog project ar gyfer hyn.

4.6.2 Ehangu'r gwaith partneriaeth a chyflwyno camau nesaf Cyfoeth Cymru Gyfan. * **MR**

Cerrig milltir i gynnwys:

- Mewn partneriaeth â Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Oriolau Celf Cymru, cyflwyno rhaglen arddangosfa deithiol wedi'i hariannu gan Gyfoeth Cymru Gyfan, i rannu canfyddiadau project ymchwil *Doliau* a ariannwyd gan CyMAL.
- Datblygu arddangosfa Mantell Aur yr Wyddgrug, a digwyddiadau cyhoeddus, mewn partneriaeth â'r Amgueddfa Brydeinig ac Amgueddfa Wrecsam (Gorffennaf 2013).
- Datblygu cais i'r Gronfa Gelf i gefnogi astudiaeth gwmpasu ar gyfer cam pellach o Celf Cymru Gyfan erbyn Rhagfyr 2013.

4.6.3 Datblygu fframwaith i hwyluso defnydd ffurfiol ac anffurfiol o'r amgueddfeydd gan grwpiau du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig. * **JL/NW**

Cerrig milltir: Parhau i weithio gyda gwahanol grwpiau cymunedol a sefydliadau cynrychiadol. Meithrin perthynas gadarnhaol â gwahanol sefydliadau a chymdeithasau trwy broiectau fel:

- cysylltu ag aelodau o Grŵp Llywio'r Bartneriaeth Affricanaidd (amlddiwylliant) i sicrhau bod digwyddiadau mis Hanes Pobl Dduon yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn parhau'n ffres, ystyrlon a pherthnasol yn 2013.
- datblygu menter Wythnos y Ffoaduriaid yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru.
- paratoi canllawiau dysgu fel teulu yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, mewn cydweithrediad ag Ysgol Gynradd Kitchener, sydd â chyfran uchel o siaradwyr ieithoedd eraill.
- gweithio gyda fforwm cyfranogol pob dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, ar broiect ailddatblygu Sain Ffagan.

4.6.4 Parhau i ddatblygu ein partneriaeth gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. * **MR**

Cerrig milltir i gynnwys:

- Rhoi cynllun marchnata ar y cyd ar waith erbyn Mai 2013.

- Ystyried y potensial, erbyn Ebrill 2013, i gydweithio ag Oriel y Parc ar fentrau ar y cyd yn arwain at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Boncath, Sir Benfro.
- Archwilio'r potensial i arddangos gwaith ymchwil a gynhaliwyd gan yr Adran Ddaeareg a phartneriaid ynghylch tarddiad cerrig gleision Côr y Cewri, erbyn Mehefin 2013.
- Datblygu partneriaeth newydd gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro er mwyn ymchwilio i anheddiad Mesolithig Sir Benfro, a chynnal trafodaethau erbyn mis Gorffennaf 2013.
- Cyflwyno arddangosfeydd yn Oriel y Parc sy'n trafod agweddau ar gelfyddyd y tirlun ym mis Mawrth a mis Medi 2013. Cefnogi gwaith staff addysg Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro a'r rhaglen artist preswyl, fel sy'n briodol.

4.6.5 Helpu Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wrth iddynt ddatblygu cynlluniau i greu canolfan ddehongli yn yr Ysgwrn. * **MR**

Cerrig milltir:

- Mynychu cyfarfodydd Grŵp Technegol Rheoli Project Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a chyfrannu atynt yn rheolaidd.
- Gwneud cyfraniad arbenigol i gofnodi a gwaith cadwraeth y Gadair Ddu.
- Rhoi cyngor daearegol mewn perthynas â chanolfan ymwelwyr newydd arfaethedig ar gyfer Llyn Ogwen, mewn cydweithrediad ag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri ac Arolwg Daearegol Prydain.

4.6.6 Meithrin ein perthynas ag awdurdodau lleol a sefydliadau diwylliannol eraill ym mhrif ddinasoedd Cymru gan gynnwys Cyngor Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Dinas a Sir Abertawe er mwyn datblygu mentrau ar y cyd. * **PAWB**

Cerrig milltir i gynnwys:

- Parhau i gydweithio ag Amgueddfa Wrecsam ar arddangosfa Mantell Aur yr Wyddgrug, i'w hagor ym mis Awst 2013.
- Gweithio mewn partneriaeth gyda Choleg Iâl, Wrecsam; Coleg Sir Gâr; Prifysgol Fetropolitan Abertawe a Phrifysgol Fetropolitan Caerdydd er mwyn cyflwyno Cystadleuaeth Flynyddol Amgueddfa Wlân Cymru i Golegau, sef cynllunio carthen i ddathlu ailagor Castell Aberteifi yn 2014.
- Datblygu ein perthynas ymhellach â Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam mewn perthynas â Safle Coedwig Ffossil Brymbo, fel y nodwyd uchod.
- Bwrw ymlaen â mentrau ar y cyd a amlinellwyd yng Nghynllun Gweithredu Creu Hanes, fel rhan o'r gwaith o ailddatblygu Sain Ffagan gyda Chyngor Caerdydd.
- Parhau i gefnogi'r gwaith ailwampio sylweddol sydd ar droed yn Oriel Gelf Glynn Vivian ar hyn o bryd, trwy roi cyngor, cynnal cadwraethydd, benthyca ac arddangos paentiadau a gwrthrychau allweddol i'w harddangos yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a pharhau i'w dangos yn gyhoeddus.

4.6.7 Gweithio gyda Chyngor Gwynedd a phartneriaid eraill i gefnogi'r cais am Statws Safle Treftadaeth y Byd ar gyfer ardaloedd y diwydiant llechi a pharhau'r berthynas gyda phartneriaeth y dreftadaeth lechi. * **MR**

Cerrig milltir: Cyfranogi a chyfrannu at y gweithgor rheoli project a sefydlwyd gan Gyngor Gwynedd i gefnogi'r cais am Statws Safle Treftadaeth y Byd. Cyflwyno astudiaeth sylfaen i Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon y DU erbyn mis Medi 2013. Cydweithio gyda

Phartneriaeth Llechi Cymru a hwyluso ei mentrau er mwyn hyrwyddo dyheadau cyffredin y sectorau llechi a masnachol a threftadaeth yng Nghymru.

4.6.8 Parhau i gyfrannu at weithredu cynllun rheoli Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon a cheisio cryfhau'r trefniadau gwaith cyfredol â phartneriaid eraill. Yn benodol, cynnal gwaith gwella ar y cyd â phroject Tirweddau Angof. * **MR**

Cerrig milltir: Fel y nodwyd yn y Cynllun Rheoli ar gyfer Safle Treftadaeth y Byd Blaenafon, cwblhau'r gwelliannau i lwybr Pwll y Coety a ariennir gan Bartneriaeth Tirweddau Angof erbyn mis Rhagfyr 2013.

4.6.9 Gweithio gyda Croeso Cymru i roi Cynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar Dwristiaeth Ddiwylliannol ar waith gan sicrhau y caiff ailddatblygiad Sain Ffagan ei gynnwys fel cynnyrch blaenllaw. **DA**

Cerrig milltir:

- Sicrhau bod Amgueddfa Cymru'n cael ei chynrychioli ar grŵp y Bartneriaeth Twristiaeth Ddiwylliannol.
- Cefnogi'r cynllun twristiaeth ddiwylliannol trwy gyflwyniadau mewn digwyddiadau diwylliannol allweddol a sicrhau mwy o sylw yn y wasg.
- Pwysleisio safle Sain Ffagan fel 'porth' i safleoedd treftadaeth eraill wrth ddehongli Sain Ffagan a chysylltu â *Strategaeth Twristiaeth Ddiwylliannol* Llywodraeth Cymru.
- Parhau i gynnal diddordeb gweithredol yn Llwybr Treftadaeth Ddiwydiannol Ewrop ar ran ein tair amgueddfa sy'n 'angorfeydd'.

4.6.10 Parhau i archwilio cyfleoedd i gydweithio a gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus eraill er mwyn sicrhau fod Amgueddfa Cymru yn cynnig y gwasanaeth gorau posibl i bobl Cymru yn y modd mwyaf effeithiol ac effeithlon. * **PAWB**

Cerrig milltir: Creu cysylltiadau priodol a chyflwyno adroddiadau rheolaidd ar gynnydd i CyMAL, yn enwedig:

- Cynnal dau gyfarfod partneriaeth rhwng Cadw ac Amgueddfa Llen Rufeinig Cymru a chynnal Cyfarfod Pwyllgor Caerllion ym mis Ebrill 2013.
- Sefydlu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Llenyddiaeth Cymru.
- Cwblhau Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth gyda Chyngor Celfyddydau Cymru mewn perthynas ag artistiaid preswyl; parhau i gymryd rhan ym menter farchnata ar y cyd Croeso Cymru/Cadw/Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol.
- Trwy Bartneriaeth Llanberis, Fforwm Padarn, Grŵp Technegol yr Ysgwrn a Llechi Cymru, parhau i feithrin cysylltiadau gyda'r sector cyhoeddus gan gynnwys Cyngor Gwynedd, Cyngor Conwy, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Llywodraeth Cymru (Project Môn Menai), Cyngor Celfyddydau Cymru, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Partneriaeth Twristiaeth y Gogledd, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, CyMAL, Prifysgol Bangor (adrannau Cymraeg a Hanes) a Cadw.

4.6.11 Ymgysylltu'n llawn ag amgueddfeydd a sefydliadau diwylliannol proffesiynol yn y DU ac yn rhyngwladol, a sicrhau bod buddiannau amgueddfeydd Cymru yn cael eu cynrychioli. **DA**

Cerrig milltir: Cynnal cysylltiadau parhaus ag amgueddfeydd cenedlaethol yr Alban, Gogledd Iwerddon a Gweriniaeth Iwerddon. Cymryd rhan yng ngwaith Cynhadledd Cyfarwyddwyr yr

Amgueddfeydd Cenedlaethol a Chymdeithas yr Amgueddfeydd, gyda'r nod o groesawu Cynhadledd Cymdeithas yr Amgueddfeydd i Gymru yn 2014.

4.7 Byddwn ni'n cynnal ac yn ymestyn doniau, sgiliau proffesiynol a galluoedd craidd ein staff.

4.7.1 Tanlinellu ein hymrwymiad i ddatblygu prentisiaethau a chyfleoedd i ddatblygu sgiliau'r di-waith trwy ystod o fentrau partneriaeth. * **MR/NW**

Cerrig milltir:

- Parhau â'r trafodaethau gyda Welsh Slate Ltd mewn perthynas â chyfleoedd prentisiaeth yn Amgueddfa Lechi Cymru ar gyfer cynhyrchu 'llechi treftadaeth'.
- Sefydlu Sain Ffagan fel lleoliad ar gyfer mentrau sgiliau traddodiadol ac adeiladu cynaliadwy.
- Parhau â'r rhaglen Rhannu Sgiliau Treftadaeth a Garddwriaeth.
- Sicrhau bod lleoliadau a phrentisiaethau rhannu sgiliau yn rhan o gytundebau â chontractwyr a gyflogir i ailddatblygu Sain Ffagan.
- Yn Big Pit, gweithredu cam nesa'r Cynllun Olyniaeth drwy recriwtio dau fyfyrwr peirianeg glofaol a datblygu cynllun ar gyfer penodi Peiriannydd Trydanol newydd.

4.7.2 Parhau i gyflwyno'r fframwaith cymwyseddau ar gyfer Adolygiadau o Berfformiad a Datblygiad, fesul tipyn ar draws y sefydliad. **NW**

Cerrig milltir: Parhau i gyflwyno'r fframwaith yn raddol erbyn mis Mawrth 2014. Yn ogystal â'r fframwaith cymwyseddau, yn Big Pit, datblygu a gweithredu system rheoli cymwyseddau newydd o ganlyniad i waith *Safe Manriding in Mines Committee* yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

4.7.3 Cynnal achrediadau Buddsoddwyr mewn Pobl yn Big Pit, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, Sain Ffagan, Amgueddfa Wlân Cymru ac Amgueddfa Lechi Cymru. **NW/MR**

Carreg filltir: Parhau i weithio gyda'n cynghorwyr i sicrhau ein bod yn cynnal ein hachrediad yn y safleoedd hyn.

4.7.4 Gweithio tuag at ennill statws corfforaethol Buddsoddwyr mewn Pobl ar draws yr holl safleoedd. Yn unol â hyn, datblygu cynlluniau i danlinellu'r ymrwymiad i gyrraedd y safonau uchaf o sgiliau arwain a rheoli ar bob lefel. **DA/NW**

Cerrig milltir: Datblygu rhaglen hyfforddiant ac ymwybyddiaeth erbyn mis Mawrth 2014 i gefnogi a gwella sgiliau hyfforddiant a mentora i reolwyr ar draws y sefydliad.

4.7.5 Rhoi'r Rhaglen Newid ar waith, ymgysylltu â staff ac ymgynghori â nhw. * **DA**

Cerrig milltir: Cwblhau'r broses o weithredu elfennau strwythurol y Rhaglen Newid erbyn mis Mawrth 2014. Cwblhau'r gwaith o osod system Adnoddau Dynol newydd erbyn Ebrill 2014.

4.7.6 Adolygu a gwella systemau cyfathrebu mewnol. **DA**

Cerrig milltir: Rhoi'r cynllun gweithredu cyfathrebu mewnol ar waith erbyn mis Ebrill 2013.

4.8 Byddwn ni'n defnyddio atebion rhithwir a'r cyfryngau newydd.

4.8.1 Datblygu Strategaeth Ddigidol gynhwysfawr newydd gan sicrhau ei bod yn adlewyrchu *Cyflawni Cymru Ddigidol: Fframwaith Amlinellol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Gweithredu* (Rhagfyr 2010) ac yn cynnwys arfarniad opsiynau ar gyfer datblygu Rhagor, ein hadnodd casgliadau ar-lein, yn y dyfodol. **JL**

Cerrig milltir: Ymgynghori ar ddatblygu'r Strategaeth Ddigidol, gan ddefnyddio Strategaeth Ddigidol Sain Ffagan yn sail ar gyfer y strategaeth ehangach. Cyflwyno'r drafft cyntaf ym mis Gorffennaf 2013.

4.8.2 Arwain menter Casgliad y Werin Cymru. * NW/JL

Cerrig milltir: Rheoli ac arwain Partneriaeth Ffederal ar gyfer Casgliad y Werin Cymru, er mwyn sicrhau bod Cynllun Busnes Casgliad y Werin Cymru 2013/14 yn cael ei gyflawni. Bydd hyn yn cynnwys arwain elfennau marchnata, dysgu, technoleg a rheoli project y rhaglen. Parhau i gynnal Rheolwr y Rhaglen yn Amgueddfa Lechi Cymru.

4.8.3 Sicrhau bod cynnwys digidol priodol yn cael ei ddatblygu mewn perthynas ag aildatblygu Sain Ffagan. **JL**

Cerrig milltir: Cyflwyno rhaglen gwella a datblygu cynnwys digidol i'w defnyddio yn Sain Ffagan, fel yr amlinellwyd yn Strategaeth Ddigidol Sain Ffagan.

4.8.4 Cyflwyno Delweddau Naturiol, project digideiddio ffotograffau hanesyddol wedi'i ariannu gan Sefydliad Esmée Fairbairn. **JW-D**

Cerrig milltir:

- Erbyn mis Mawrth 2014, datblygu systemau priodol i gyd-fynd â chyflwyno cronfa ddata'r project i'r cyhoedd.
- Cyflwyno rhaglen barhaus o waith ymchwil a digideiddio er mwyn sicrhau 5,000 o luniau digidol erbyn mis Mawrth 2014.
- Parhau i gyflwyno seminarau ymchwil yn chwarterol gydol 2013/14, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Cymru Casnewydd.

4.9 Byddwn ni'n hyrwyddo cynaliadwyedd cyhoeddus, gwleidyddol ac ariannol.

4.9.1 Cefnogi'r Ymddiriedolwyr yn eu gwaith eiriolaeth trwy eu briffio'n rheolaidd, a rhoi hyfforddiant a deunyddiau darllen priodol iddynt. **DA**

Cerrig milltir: Parhau i gyhoeddi briffiau i'r Ymddiriedolwyr bob rhyw ddeufis a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ar gysylltiadau cyhoeddus a chyfathrebu.

4.9.2 Parhau i ddatblygu a meithrin y berthynas werthfawr gyda Noddwyr Amgueddfa Cymru. **DA/MR**

Cerrig milltir: Parhau â'r stiwardiaeth lefel uchel i ehangu aelodaeth y Noddwyr trwy raglen o ddigwyddiadau ac eiriolaeth. Meithrin Pwyllgor Cyfeillion Amgueddfa Cymru trwy'u digwyddiadau a'u gwaith cymorth ehangach.

4.9.3 Trefnu a chynnal digwyddiadau eiriolaeth er mwyn i Amgueddfa Cymru gael y cyfle i gyfathrebu â dylanwadwyr allweddol Cymru a chydweithio â nhw. **DA**

Cerrig milltir: Trefnu presenoldeb mewn digwyddiadau cenedlaethol gan gynnwys Eisteddfod yr Urdd Sir Benfro ac Eisteddfod Genedlaethol Sir Ddinbych, a threfnu digwyddiadau eiriolaeth rheolaidd ar themâu allweddol gydol y flwyddyn.

4.9.4 Rhoi Strategaeth Eiriolaeth ddiwygiedig Amgueddfa Cymru ar waith. **DA**

Cerrig milltir: Parhau i gynnal cyfarfodydd rheolaidd o'r fforwm eiriolaeth mewnol er mwyn helpu i roi'r cynllun gweithredu Eiriolaeth sy'n deillio o'r strategaeth ddiwygiedig ar waith.

4.10 Byddwn ni'n defnyddio dulliau strategol a masnachol i ddatblygu a dyrannu adnoddau.

4.10.1 Cydweithio â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod arian ar gael i ni wireddu ein Gweledigaeth. * **NW**

Cerrig milltir: Erbyn Ebrill 2013, datblygu cynlluniau cyllideb ar gyfer y 3 blynedd nesaf a'r 10 mlynedd nesaf sy'n gallu arwain at gyllideb gytbwys tra'n cynnal gwasanaethau craidd, er gwaetha'r toriadau disgwylidig yn y gyllideb. Datblygu Strategaeth Ariannol ochr yn ochr â chynlluniau cyllideb, erbyn mis Medi 2013, a'u diweddarau erbyn mis Ebrill bob blwyddyn wedyn.

4.10.2 Hyrwyddo cynaliadwyedd ledled Amgueddfa Cymru. * **MR**

Cerrig milltir i gynnwys:

- Cadw safonau Lefel 3 y Ddraig Werdd ym mhob amgueddfa.
- Sicrhau bod systemau ar waith i gofnodi ac adrodd ar faint o ynni a ddefnyddir a faint o garbon a gynhyrchir fel rhan o'r Adroddiad ar Gynaliadwyedd.
- Cwblhau'r gwaith o osod cam olaf Rhwydwaith Argraffu'r Amgueddfa, er mwyn lleihau costau argraffu a lleihau effaith amgylcheddol hynny. Dechrau ar ail gam y gwaith o uwchraddio cyfrifiaduron i Windows 7/Microsoft Office 2010.
- Datblygu rhaglen ddigwyddiadau yn Sain Ffagan sy'n rhoi pwyslais ar gynaliadwyedd, gan gynnwys 'Plannu, Tyfu, Bwyta' a 'Gwneud a Thrwsio'.

4.10.3 Gweithio gyda Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Bwrdd Datblygu i ddenu cymaint â phosibl o gyllid allanol ar gyfer cynlluniau cyfalaf, a rhoi strategaeth codi arian ar gyfer datblygu Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru ar waith yn benodol. * **DA**

Cerrig milltir: Diweddarau strategaeth codi arian Sain Ffagan a'i chynnwys yn Strategaeth Codi Arian newydd y sefydliad cyfan a fydd yn barod erbyn mis Medi 2013. Cyflwyno ceisiadau ariannol a gofyn am gymorth. Cyflawni targedau ariannol. Parhau i gefnogi'r Bwrdd Datblygu a chynnal pedwar cyfarfod y flwyddyn.

4.10.4 Rhoi'r Cynllun Datblygu diwygiedig ar gyfer Mentrau Amgueddfeydd ac Oriolau Cenedlaethol Cymru Cyf. ar waith. * **MR**

Cerrig milltir: Cyflwyno adroddiadau chwarterol ar gynnydd (Mai 2013, Gorffennaf 2013, Tachwedd 2013) a diweddarau ac adolygu'r Bwrdd Mentrau Cyf. ym mis Chwefror 2014.

4.10.5 Ymchwilio i gyfleoedd i ddatblygu cynnyrch masnachol. * **PAWB**

Cerrig milltir i gynnwys:

- Creu proffil o'r ymwelwyr sy'n prynu nwyddau masnach ac arlwyio o Astudiaeth o Broffil Ymwelwyr 2012/13 er mwyn hysbysu Mentrau Cyf.
- Yn Amgueddfa Wlân Cymru, cynhyrchu edafedd gwllân yn ogystal â nwyddau wedi'u gweu, i'w gwerthu yn ein siopau ac ar-lein.
- Yn Sain Ffagan, parhau i ddatblygu stoc bridio a marchnata cig, a datblygu'r cynllun blwch cig.
- Yn Amgueddfa Lechi Cymru, ehangu'r dewis o nwyddau llechi a gynhyrchir ar y safle.

4.10.6 Cyflwyno taliadau am weithgareddau a hwylusir gan yr Amgueddfa. * **JL**

Cerrig milltir: Cyflwyno ystod newydd o daliadau am weithgareddau, gweithdai a sesiynau dysgu gwerth ychwanegol a hwylusir, o fis Medi 2013 ymlaen. Hefyd, cyflwyno taliadau ar gyfer ymholiadau am gasgliadau a threialu taliadau ar gyfer teithiau tywys a archebir ymlaen llaw, mynediad wedi'i hwyluso i gasgliadau a chyfleoedd dysgu hamdden i oedolion ac Addysg Uwch erbyn mis Mawrth 2014.

5.0 Gwerthusiad

Dangosyddion ansoddol

Amcan Allweddol	Dangosyddion Ansoddol	Mesur llwyddiant		Dulliau mesur	Pa mor aml	Cyfarwyddwr â chyfrifoldeb
		Llwyddiannau	Diffygion			
Byddwn ni'n datblygu ein hamgueddfeydd o safon ryngwladol er mwyn ysbrydoli dysgu a chysylltu pobl â'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol	Sut ydym yn cymharu â'r safonau allanol cydnabyddedig?	Cadw dyfarniadau VAQAS Cadw Gwobrau Sandford Bathodyn Ansawdd dysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth	Colli dyfarniadau VAQAS Methu â chadw Gwobrau Sandford Methu â chadw Bathodyn Ansawdd Dysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth	Marciau nod Ansawdd: Gwobr Sandford VAQAS Bathodyn Ansawdd Dysgu y tu allan i'r Ystafell Ddosbarth	Bob blwyddyn	MR JL
	Pa mor fodlon yw ein hymwelwyr cyffredinol?	Adborth cadarnhaol am amgueddfeydd croesawgar a reolir yn dda	Materion negyddol wedi'u codi a sylwadau beirniadol	Gwaith arolwg Llyfrau sylwadau Adroddiad gan y safle	Bob 3 blynedd Nesaf: 2015 Bob blwyddyn	MR
Byddwn ni'n creu bri rhyngwladol	Pa mor ymwybodol yw rhanddeiliaid allweddol o'n henw a'n brand?	Ymwybyddiaeth ragorol o amcanion a gweithgareddau Amgueddfa Cymru, a fesurwyd trwy arolygon/grwpiau ffocws.	Ymwybyddiaeth wael o amcanion a gweithgareddau Amgueddfa Cymru	Cyfrannu at arolygon barn Gweithgaredd grŵp ffocws	Bob 3 blynedd neu'n fwy rheolaidd	DA
	Sut mae Amgueddfa Cymru yn cyfrannu at	Amrywiaeth eang o gynrychiolaeth a gweithgareddau	Cynrychiolaeth ryngwladol wael	Arolwg cyfnodol o bresenoldeb a chyfraniad staff	Bob blwyddyn	DA

Amcan Allweddol	Dangosyddion Ansoddol	Mesur llwyddiant		Dulliau mesur	Pa mor aml	Cyfarwyddwr â chyfrifoldeb
		Llwyddiannau	Diffygion			
	ddigwyddiadau a chynadleddau rhyngwladol?	rhyngwladol				
	A yw staff Amgueddfa Cymru yn aelodau o gyrff proffesiynol a gydnabyddir yn rhyngwladol?	Cynrychiolaeth ragorol ar gyrff proffesiynol perthnasol a gydnabyddir yn rhyngwladol	Ychydig iawn o aelodau staff a gynrychiolir ar gyrff proffesiynol a gydnabyddir yn rhyngwladol	Arolwg rheolaidd o staff	Bob 3 blynedd	DA, NW
Byddwn ni'n cyflwyno casgliadau a gwaith ymchwil cyfoes a pherthnasol o safon ryngwladol	A yw'n cydymffurfio â safonau priodol y sector ac a oes trefniadau monitro safonol ar waith?	Amgueddfa Cymru wedi'i hachredu'n llwyddiannus fel amgueddfa yn unol â safonau'r Ymddiriedolaeth Casgliadau (PAS 197) Cysylltiad gweithredol ag arweinwyr y sector gan gynnwys grŵp Strategaeth Casgliadau Cymdeithas yr Amgueddfeydd.	Amgueddfa Cymru yn colli'i hachrediad fel amgueddfa yn unol â safonau'r Ymddiriedolaeth Casgliadau (PAS 197) Dim cysylltiad â grwpiau safonau casgliadau'r sector	Diweddariad naratif ar achrediad a Strategaeth Casgliadau Cymdeithas yr Amgueddfeydd Grŵp Strategaeth Casgliadau	Bob blwyddyn	JW-D
	A yw holl eitemau casgliadau	Mae cronfeydd data casgliadau yn diwallu	Nid yw'r cronfeydd data casgliadau yn addas i'r diben	Adroddiad naratif ar gronfeydd data	Bob blwyddyn	JW-D

Amcan Allweddol	Dangosyddion Ansoddol	Mesur llwyddiant		Dulliau mesur	Pa mor aml	Cyfarwyddwr â chyfrifoldeb
		Llwyddiannau	Diffygion			
	wedi'u derbyn yn briodol?	anghenion amrywiaeth o ddefnyddwyr		casgliadau sydd ar gael i'r cyhoedd		
	A oes amrywiaeth o gyfleoedd yn cael eu darparu i bobl ymgysylltu â'r casgliadau?	Amrywiaeth eang o ddefnyddwyr yn cyrchu'r casgliadau cenedlaethol yn yr holl feysydd pwnc amrywiol at ddibenion gwahanol	Amrywiaeth gyfyng o ddefnyddwyr yn cyrchu'r casgliadau cenedlaethol yn yr holl feysydd pwnc amrywiol at ddibenion gwahanol	Adroddiad naratif yn amlinellu amrywiaeth yr ymholiadau, gyda data meintiol yn nodi nifer yr ymholiadau Adroddiad naratif yn rhoi enghreifftiau o'r gwahanol ffyrdd mae rhanddeiliaid yn rhyngweithio â'r casgliadau nad ydynt yn cael eu harddangos	Bob blwyddyn Bob blwyddyn	JW-D JW-D
	Beth yw gweithgarwch proffesiynol staff curadurol a chadwraeth?	Mae staff Amgueddfa Cymru yn golygu amrywiaeth o gyfnodolion a llyfrau Cynrychiolaeth dda ar	Ychydig o staff Amgueddfa Cymru sy'n golygu cyfnodolion a llyfrau Cynrychiolaeth wael ar bwyllgorau cenedlaethol,	Adroddiad naratif ar gynrychiolaeth staff ar bwyllgorau cenedlaethol, gweithgoreu ac ati	Bob blwyddyn	JW-D

Amcan Allweddol	Dangosyddion Ansoddol	Mesur llwyddiant		Dulliau mesur	Pa mor aml	Cyfarwyddwr â chyfrifoldeb
		Llwyddiannau	Diffygion			
		amrywiaeth o bwyllgorau cenedlaethol perthnasol, gweithgorau ac ati	gweithgorau ac ati			
	A oes rhaglen ymchwil eang a pherthnasol ar waith?	Rhaglen ymchwil eang sy'n cael ei chyhoeddi ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol	Rhaglen ymchwil â chanolbwynt cul nad yw'n arwain at lawer o gyhoeddiadau	Adroddiad naratif ar yr ymchwil [Gweler y dangosyddion meintiol ar gyhoeddiadau]	Bob chwarter (i'r Bwrdd)	JW-D
Byddwn ni'n denu cynulleidfaoedd penodedig â blaenoriaeth	Sut ydym yn targedu ein cynulleidfaoedd â blaenoriaeth?	Proffil gwirioneddol ein cynulleidfa yn cynrychioli ein cynulleidfa darged	Nid yw'r proffil yn cynrychioli ein cynulleidfaoedd targed	Arolygon	Bob 3 blynedd (nesaf: 2015)	MR
Byddwn ni'n cyfleu ein casgliadau a'n hatgofion ni i gyd trwy adrodd straeon perthnasol, ystyrlon ac addysgiadol	Sut ydym yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n ddigonol ag ymwelwyr, o ddefnyddwyr newydd i gynulleidfaoedd arbenigol, heb gyfaddawdu ar anghenion y naill na'r llall?	Mae cynulleidfaoedd amrywiol yn mwynhau'r un projectau a digwyddiadau neu rai tebyg (wedi'u targedu at amrywiaeth eang o bobl) i'r un graddau Wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu	Heb fodloni canlyniadau dysgu cyffredinol (GLO) Darparu ar gyfer dulliau dysgu penodol yn unig	Gwaith Astudiaeth Achos GLO I gynnwys rhai projectau dysgu a phob project arddangosfa ac un o bob safle/adran y flwyddyn	Bob chwarter	JL

Amcan Allweddol	Dangosyddion Ansoddol	Mesur llwyddiant		Dulliau mesur	Pa mor aml	Cyfarwyddwr â chyfrifoldeb
		Llwyddiannau	Diffygion			
		cyffredinol Darparu ar gyfer dulliau dysgu amrywiol				
	Pa mor fodlon yw ein hymwelwyr addysg ffurfiol?	Adborth cadarnhaol ar raglenni addysgol a drefnir yn dda ac ar amgueddfeydd croesawgar	Materion negyddol wedi'u codi a sylwadau beirniadol	Arolygon ac adroddiadau	Bob blwyddyn	JL
Byddwn ni'n ehangu ein partneriaethau cymunedol, strategol ac ariannol	A yw ein mentrau Rhaglenni Partneriaeth yn llwyddiannus?	Adborth cadarnhaol gan bartneriaid yn amlinellu amrywiaeth o feysydd sy'n destun dathlu	Adborth gwael gan bartneriaid yn beirniadu Amgueddfa Cymru	Adroddiad naratif yn crynhoi gwaith a chanlyniadau sy'n deillio o'r Rhaglen Bartneriaeth	Bob blwyddyn	MR
	A ydym yn llwyddiannus wrth roi hyfforddiant neu gyngor proffesiynol i gyrff allanol?	Adborth cadarnhaol gyda chanlyniadau dysgu cadarnhaol ar gyfer defnyddwyr allanol	Adborth gwael gydag ychydig iawn o ganlyniadau dysgu ar gyfer defnyddwyr allanol	Adroddiadau astudiaethau achos Adroddiad naratif i roi blas ar amrywiaeth a phwysigrwydd	Bob blwyddyn	JW-D
Byddwn ni'n cynnal ac yn ymestyn doniau, sgiliau proffesiynol a	A yw Amgueddfa Cymru yn buddsoddi yn ei staff a'u datblygiad?	Statws Buddsoddwr mewn Pobl wedi'i gyflawni/ei gynnal	Statws Buddsoddwr mewn Pobl heb ei gyflawni/wedi'i dynnu'n ôl	Marc ansawdd allanol: Buddsoddwr mewn Pobl	Pob safle i gyflawni/cynnal statws Buddsoddwr mewn Pobl erbyn 2015 a'i	NW

Amcan Allweddol	Dangosyddion Ansoddol	Mesur llwyddiant		Dulliau mesur	Pa mor aml	Cyfarwyddwr â chyfrifoldeb
		Llwyddiannau	Diffygion			
galluoedd craidd ein staff					adnewyddu'n rheolaidd	
	Beth yw cyflawniadau staff Amgueddfa Cymru?	Cydnabod a dathlu amrywiaeth eang o weithgarwch ledled y sefydliad	Ychydig iawn o lwyddiant wedi'i nodi	Cydnabod cyfraniad ehangach staff (trwy Benaethiaid Adrannau)	Bob blwyddyn	NW
	A yw staff Amgueddfa Cymru yn hapus a bodlon yn eu gwaith?	Amrywiaeth dda o sylwadau cadarnhaol	Sylwadau ac adborth gwael yn gyffredinol	Arolwg staff mewnol	Bob 3 blynedd (nesaf: 2014)	NW
	Pa fath o gynllunio ar gyfer olyniaeth sydd ar waith?	Tystiolaeth bod cynllunio ar gyfer olyniaeth ar waith ledled y rhan fwyaf o adrannau	Dim dystiolaeth bod cynllunio ar gyfer olyniaeth ar waith	Adroddiad	Bob 3 blynedd (nesaf: 2014)	NW
Byddwn ni'n Defnyddio atebion cyfryngau newydd	A yw'r Amgueddfa yn darparu gwybodaeth hygrych, berthnasol ac amserol drwy'r wefan, Rhagor a thu hwnt?	Sylwadau adolygu cadarnhaol	Sylwadau negyddol	Arolygon ar-lein	Bob blwyddyn	JL
Byddwn ni'n hyrwyddo cynaliadwyedd	Pa fath o enw sydd gan Amgueddfa	Dealltwriaeth dda o swyddogaeth a ffocws strategol	Dealltwriaeth wael o swyddogaeth a	Gweithgarwch tebyg i grŵp ffocws (e.e. y	Bob 3 blynedd neu'n amlach os oes angen	DA

Amcan Allweddol	Dangosyddion Ansoddol	Mesur llwyddiant		Dulliau mesur	Pa mor aml	Cyfarwyddwr â chyfrifoldeb
		Llwyddiannau	Diffygion			
cyhoeddus, gwleidyddol ac ariannol	Cymru ymysg partneriaid allweddol?	Amgueddfa Cymru ymysg partneriaid allweddol	ffocws strategol Amgueddfa Cymru ymysg partneriaid allweddol	Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cynnal derbyniadau ar gyfer y Sector Diwylliant) Arolygon tebyg i rai IPSOS/MORI		
Byddwn ni'n defnyddio dull strategol a masnachol i ddatblygu a dyrannu adnoddau	Pa adnoddau sydd wedi'u clustnodi i'w hailgyfeirio fel adnoddau Gweledigaeth?	Adnoddau sylweddol wedi'u clustnodi i'w hailgyfeirio fel adnoddau Gweledigaeth?	Ychydig iawn o adnoddau wedi'u clustnodi i'w hailgyfeirio fel adnoddau Gweledigaeth?	Faint o gyllid sydd ar gael i ailgyfeirio adnoddau ar gyfer blaenoriaethau Gweledigaeth newydd	Bob blwyddyn	NW
	A yw cwsmeriaid ein siopau a'n caffis yn fodlon â'r hyn sy'n cael ei gynnig?	Mae cwsmeriaid yn fodlon iawn ag ansawdd y ddarpariaeth yn gyffredinol	Mae cwsmeriaid yn siomedig ag ansawdd y ddarpariaeth	Arolwg i'w gynnwys mewn arolwg ehangach o ymwelwyr. Mentrau Cyf. i gyfrannu at y gwaith o baratoi'r holiadur	Cysylltu'n flynyddol ag adborth o waith arolygon	MR
	A ydym yn cyflawni ein hymrwymiaadau i leihau allyriadau carbon?	Gostyngiad gwirioneddol yn ein hallyriadau carbon o ganlyniad i'n gweithgareddau	Dim gostyngiad, neu gynnydd yn ein hallyriadau carbon o ganlyniad	Adroddiad naratif ar feysydd cynnydd ynghyd â ffigur sy'n nodi canran	Bob blwyddyn	MR

Amcan Allweddol	Dangosyddion Ansoddol	Mesur llwyddiant		Dulliau mesur	Pa mor aml	Cyfarwyddwr â chyfrifoldeb
		Llwyddiannau	Diffygion			
			i'n gweithgareddau	y gostyngiad mewn allyriadau carbon		
	Pa safonau cynaliadwyedd allanol yr ydym wedi'u cyflawni?	Cadw Lefel 3 y Ddraig Werdd. Cyrraedd lefel 3 ym maes SPA a lefel 5 mewn un maes	Colli Dyfarniad Lefel 3 y Ddraig Werdd	Achrediad Allanol – Dyfarniad Lefel 3 y Ddraig Werdd	Bob blwyddyn	MR
	Sut ydym yn sicrhau bod pob gwaith adeiladu newydd yn gynaliadwy?	Sgôr 'Rhagorol' BREAM Safon Digarbon O leiaf 10% o ddeunyddiau y gellir eu hailgylchu	Sgôr BREAM gwael	Cyflwyno rhan o'r Rheoliadau Adeiladu ar brojectau newydd	Yn unol â phob gwaith adeiladu newydd	MR

Dangosyddion meintiol

Ar gyfer pob un o'r dangosyddion meintiol hyn, caiff llwyddiant ei fesur drwy gyrraedd targedau y cytunwyd arnynt ymlaen llaw.

Amcan Allweddol	Dangosydd Meintiol	Diffiniad	Targed blynyddol 2013/2014	Cylch adrodd	Cyfarwyddwr â chyfrifoldeb
Byddwn ni'n datblygu ein hamgueddfeydd o safon ryngwladol er mwyn ysbrydoli dysgu a chysylltu pobl â'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol	Nifer yr ymweliadau* Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyffredinol (ACC)	Cyfanswm ymweliadau ag Amgueddfeydd Amgueddfa Cymru. Mae'r dangosydd hwn yn cynnwys nifer yr ymweliadau addysg ffurfiol	1,600,000	Chwarterol	MR
	Nifer yr ymweliadau gan bobl sy'n dychwelyd	Nifer yr ymweliadau gan ymwelwyr sydd eisoes wedi ymweld â'r amgueddfa	Amherthnasol	Arolygon bob 3 blynedd (nesaf: 2015)	MR
Byddwn ni'n creu bri rhyngwladol	Cyfanswm y benthyciadau	Cyfanswm y benthyciadau ar ddechrau'r flwyddyn a nifer y benthyciadau yn ystod y flwyddyn	477	Chwarterol	JW-D
	Nifer y lleoliadau a dderbyniodd fenthyciadau allanol ledled y byd*	Cyfanswm y lleoliadau a dderbyniodd fenthyciadau ar ddechrau'r flwyddyn a lleoliadau newydd a dderbyniodd fenthyciadau yn ystod y flwyddyn	310	Chwarterol	JW-D

Amcan Allweddol	Dangosydd Meintiol	Diffiniad	Targed blynyddol 2013/2014	Cylch adrodd	Cyfarwyddwr â chyfrifoldeb
	(ACC)				
	Cyfanswm y benthyciadau i'w harddangos	Cyfanswm y benthyciadau i'w harddangos	35	Chwarterol	JW-D
	Cyfanswm y benthyciadau ar gyfer gwaith ymchwil	Cyfanswm y benthyciadau ar gyfer gwaith ymchwil	32	Chwarterol	JW-D
	Canran yr amgueddfeydd achrededig yng Nghymru â benthyciadau o gasgliadau Amgueddfa Cymru	Canran yr amgueddfeydd achrededig yng Nghymru â benthyciadau o gasgliadau Amgueddfa Cymru	50%	Chwarterol	JW-D
	Nifer y cydweithrediadau rhyngwladol	Nifer y cydweithrediadau rhyngwladol rhwng Amgueddfa Cymru a phartner rhyngwladol (tu allan i'r DU)	100	Chwarterol	DA
Byddwn ni'n cyflwyno casgliadau a gwaith ymchwil	% y casgliadau sydd ar system	Nifer y gwrthrychau/eitemau wedi'u dogfennu yn unol â safonau rheoli	50.5%	Chwarterol	JW-D

Amcan Allweddol	Dangosydd Meintiol	Diffiniad	Targed blynyddol 2013/2014	Cylch adrodd	Cyfarwyddwr â chyfrifoldeb
cyfoes a pherthnasol o safon ryngwladol	gyfrifiadurol i safon stocrestr (ACC)	stocrestr fel canran o'r cyfanswm yn y casgliad			
	Nifer y projectau ymchwil (ACC)	Nifer y projectau ymchwil ar waith ar ddechrau'r flwyddyn a nifer y projectau ymchwil newydd a ddechreuwyd yn ystod y flwyddyn	228	Chwarterol	JW-D
	Nifer yr erthyglau/llyfrau/catalogau ysgolheigaidd a adolygwyd gan gymheiriaid, sydd wedi'u cyhoeddi	Nifer yr erthyglau, llyfrau, a chatalogau ysgolheigaidd a gyhoeddwyd wedi'u hadolygu gan staff Amgueddfa Cymru	Adroddiad blynyddol – dim targed	Blynyddol	JW-D
	Nifer yr adolygiadau gan gymheiriaid a ddarparwyd gan staff Amgueddfa Cymru	Nifer yr adolygiadau gan gymheiriaid a ddarparwyd gan staff Amgueddfa Cymru	Adroddiad blynyddol – dim targed	Blynyddol	JW-D
Byddwn ni'n denu cynulleidfaoedd penodedig â blaenoriaeth	Nifer yr ymweliadau gan gynulleidfaoedd â blaenoriaeth	Nifer yr ymweliadau gan gynulleidfaoedd â blaenoriaeth	Bob tair blynedd	Bob tair blynedd	MR

Amcan Allweddol	Dangosydd Meintiol	Diffiniad	Targed blynyddol 2013/2014	Cylch adrodd	Cyfarwyddwr â chyfrifoldeb
	(ACC)				
	Nifer y gweithgareddau wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd targed (ACC)	Nifer y digwyddiadau wedi'u hanelu at gynulleidfaoedd targed	700	Chwarterol	MR
Byddwn ni'n cyfleu ein casgliadau a'n hatgofion ni i gyd trwy adrodd straeon perthnasol, ystyrlon ac addysgiadol	Nifer yr ymweliadau addysg ffurfiol* (ACC)	Nifer yr ymweliadau ag un o'n hamgueddfeydd, er mwyn helpu i gyflawni neu gefnogi amcanion dysgu cwricwlwm ffurfiol cydnabyddedig, gan athrawon a myfyrwyr ysgolion, colegau neu brifysgolion gan amlaf	220,000	Chwarterol	JL
	Nifer yr ymweliadau dysgu 'gwerth ychwanegol' * (ACC)	Nifer yr ymweliadau ag un o'n hamgueddfeydd, lle cynigir cyfle dysgu ychwanegol sy'n rhagori ar y cynnig dysgu craidd sydd ar gael i'r cyhoedd ymhob amgueddfa h.y. ymweliadau â digwyddiadau arbennig sy'n agored i bawb neu ymweliadau gan	180,000	Chwarterol	JL

Amcan Allweddol	Dangosydd Meintiol	Diffiniad	Targed blynyddol 2013/2014	Cylch adrodd	Cyfarwyddwr â chyfrifoldeb
		gynulleidfaoedd penodol ac anodd eu cyrraedd, drwy drefnu ymlaen llaw fel arfer, ar gyfer sesiynau a hwylusir			
	Nifer y cyfranogwyr mewn gweithgareddau dysgu oddi ar y safle* (ACC)	Nifer y cyfranogwyr mewn cyfleoedd dysgu (yn seiliedig ar ein hamgueddfeydd, ein casgliadau neu'n gwaith) – nid yn un o'n hamgueddfeydd ond wedi'u hwyluso neu eu trefnu gan aelod o staff yr amgueddfa. Cyfanswm gwirioneddol cyfranogwyr mewn rhaglenni oddi ar y safle	30,000	Chwarterol	JL
Byddwn ni'n ehangu ein partneriaethau cymunedol, strategol ac ariannol	Nifer y partneriaethau (strategol, ariannol, cymunedol) (ACC)	Nifer y cysylltiadau partneriaeth ar ddechrau'r flwyddyn a nifer y cysylltiadau partneriaeth a gafodd eu meithrin yn ystod y flwyddyn	25	Blynyddol	MR
Byddwn ni'n cynnal ac yn ymestyn doniau, sgiliau proffesiynol a galluoedd craidd	Canran y staff sy'n derbyn hyfforddiant a datblygiad (ACC)	Nifer y staff sy'n derbyn hyfforddiant a datblygiad yn ystod y flwyddyn fel canran o gyfanswm y staff	25%	Chwarterol	NW

Amcan Allweddol	Dangosydd Meintiol	Diffiniad	Targed blynyddol 2013/2014	Cylch adrodd	Cyfarwyddwr â chyfrifoldeb
ein staff					
	Nifer y cyfleoedd gwirfoddoli (ACC)	Nifer y cyfleoedd sydd ar gael i wirfoddolwyr	30	Chwarterol	NW
Byddwn ni'n defnyddio atebion rhithwir a'r cyfryngau newydd	Nifer yr ymweliadau â'r wefan * (ACC)	Nifer yr ymweliadau â'r wefan a gyfrifwyd gan ddefnyddio AWStats, yn ogystal â thrwy ddadansoddi'r trawiadau, lawrlwythiadau a'r amser a dreulir yn defnyddio'r wefan	1,700,000	Chwarterol	JL
Byddwn ni'n hyrwyddo cynaliadwyedd cyhoeddus, gwleidyddol ac ariannol	Nifer y rhai sy'n mynychu digwyddiadau eiriolaeth a dargedir. (ACC)	Nifer y rhai sy'n mynychu digwyddiadau eiriolaeth a dargedir yn erbyn nifer y rhai a wahoddwyd a nifer y digwyddiadau, ynghyd â naratif ar ddiben y digwyddiadau.	1000	Chwarterol	DA
	Nifer y partneriaethau sy'n deillio o fentrau eiriolaeth.	Nifer y partneriaethau sy'n deillio'n uniongyrchol o fentrau eiriolaeth.	6	Blynyddol	DA
Byddwn ni'n defnyddio dull strategol a masnachol i ddatblygu a	Incwm ymchwil (ACC)	Incwm ymchwil a gynhyrchwyd yn sgil partneriaethau	£170,000	Chwarterol	JW-D

Amcan Allweddol	Dangosydd Meintiol	Diffiniad	Targed blynyddol 2013/2014	Cylch adrodd	Cyfarwyddwr â chyfrifoldeb
dyrannu adnoddau					
	Elw o Mentrau Cyf. (ACC)	Elw net (ar ôl ystyried costau) a enillwyd gan Mentrau Cyf. yn y flwyddyn ariannol	£425,326	Chwarterol	NW
	Arian a Enillwyd gan yr Adran Ddatblygu (ACC)	Incwm a enillwyd drwy godi arian yn y flwyddyn ariannol	£1,500,000	Chwarterol	DA

Dangosyddion Corfforaethol allweddol

Fel rhan o'r Map Gweledigaeth, mae nifer o feysydd corfforaethol allweddol sy'n sail i'n gwaith gwerthuso, sef Amrywiaeth, Iechyd a Diogelwch, Prifffrydio'r Gymraeg ac Ymgynghori ac Ymgysylltu â'r Cyhoedd. Mae'r dangosyddion wedi'u rhestru isod.

Maes Corfforaethol Allweddol	Dangosyddion corfforaethol	Cyfarwyddwr â chyfrifoldeb
Amrywiaeth	Adroddiad naratif ar amrywiaeth	NW
Iechyd a Diogelwch	Nifer damweiniau/digwyddiadau'r flwyddyn a adroddir yn unol â'r Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau neu Ddigwyddiadau Peryglus. TARGED = llai na 5	MR
Y Gymraeg	Lefelau boddhad â'r gwasanaeth ymhlith siaradwyr Cymraeg a'r di-Gymraeg a adroddir trwy ddull naratif	NW
Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd	Nifer y bobl allanol a'r cymunedau amrywiol sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd	JL
	Cyfraniad staff at weithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd	JL
	Staff wedi derbyn hyfforddiant priodol i ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd	JL
	Adroddiad ar gyhoeddi a hyrwyddo canlyniadau gweithgareddau ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol ac allanol (yn seiliedig ar y cynllun gweithredu blynyddol)	JL

Atodiadau

- | | |
|----------|-------------------------------|
| A | Llythyr cylch gwaith |
| B | Rhaglen ymchwil |
| C | Rhaglen addysg |
| D | Rhaglen arddangosfeydd |
| E | Materion ariannol |

Huw Lewis AC / AM
Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth
Minister for Housing, Regeneration and Heritage



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Elisabeth Elias
Llywydd
Amgueddfa Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

18 Chwefror 2013

Annwyl Elisabeth,

Amgueddfa Cymru: Llythyr Cylch Gwaith 2013-14

Mae'n bleser gennyf gyhoeddi Llythyr Cylch Gwaith Amgueddfa Cymru (yr Amgueddfa) ar gyfer 2013-14. Rwyf o'r farn bod cyrff a noddir, fel yr Amgueddfa, yn gallu defnyddio'u cryfderau unigol a'u harbenigedd i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl Cymru. Hoffem weld y cyrff a noddir gennym yn dangos eu bod yn berthnasol i gymunedau ledled Cymru, ac yn mynd ati'n rhagweithiol i estyn allan er mwyn cynnig cymorth i'n pobl ifanc, yn enwedig y rheini sy'n byw mewn cymunedau difreintiedig.

Yn yr hinsawdd anodd sydd ohoni, mae'n hynod bwysig bod sefydliadau gwahanol yn cydweithio er mwyn manteisio i'r eithaf ar y sgiliau, yr adnoddau a'r arbenigedd sydd ganddynt ac er mwyn datblygu syniadau newydd ac arloesol. Hoffwn weld lefel newydd o weithio mewn partneriaeth yn ystod y flwyddyn sydd i ddod; nid dim ond rhwng gwahanol sefydliadau treftadaeth, ond hefyd drwy gefnogi gwaith integredig ar y lefel leol, y lefel ranbarthol a'r lefel genedlaethol i fynd i'r afael â materion sylfaenol megis trechu tlodi a bod yn fwy cynaliadwy.

Y mae amddiffyn staff isaf eu cyflog yn yr hinsawdd economaidd bresennol yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Hoffwn i'r Amgueddfa gymryd camau tuag at sicrhau bod eich holl staff yn cael eu talu ar neu'n uwch na'r Cyflog Byw, gyda golwg ar weithredu erbyn mis Ebrill 2015.

Mae darparu gwasanaethau sy'n agored ac o fewn cyrraedd hwylus i ddinasyddion Cymru yn rhan annatod o Weledigaeth yr Amgueddfa. Mae'r Amgueddfa hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig o ran gwireddu'r ymrwymïadau yn y *Rhaglen Lywodraethu*, sef cynllun gwaith strategol Llywodraeth Cymru.

- Datblygu ymhellach safle Sain Ffagan fel atyniad diwylliannol pwysig ac fel porth i Gymru ar gyfer ymwelwyr;
- Parhau i gynnig mynediad di-dâl i Amgueddfa Cymru er mwyn sicrhau ei bod yn cael gymaint o effaith â phosibl;
- Datblygu potensial cyfryngau digidol i hybu diwylliant drwy gyfrwng Casgliad y Werin a mentrau eraill ar-lein.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Ffacs * Fax 029 2089 8522
Correspondence.huw.lewis@Wales.gsi.gov.uk

Mae synergedd clir hefyd rhwng gwaith yr Amgueddfa ac agenda ehangach Llywodraeth Cymru, ac mae'n cyfrannu at y meysydd canlynol yn y *Rhaglen Lywodraethu*:

- Diwylliant a Threftadaeth Cymru;
- Twf a Swyddi Cynaliadwy;
- Addysg;
- Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru
- Yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

Yn ogystal â gwaith craidd yr Amgueddfa fel y'i amlinellir yn ei Siarter, dyma fy mlaenoriaethau ar gyfer Amgueddfa Cymru yn ystod y flwyddyn sydd i ddod:

Galluogi a hyrwyddo mynediad i gasgliadau a gwasanaethau'r Amgueddfa yng Nghymru drwyddi draw gan bob aelod o gymdeithas, gan dalu sylw arbennig i anghenion cymunedau dan anfantais a grwpiau lleiafrifol, drwy

- Barhau â'r polisi o fynediad am ddim i bob ymwelydd â phob safle;
- Gweithredu eich Strategaeth Tlodi Plant i gynyddu i'r eithaf fynediad pobl ifanc o bob cefndir, gyda ffocws penodol ar y rhai mwyaf difreintiedig, a pharhau i gynnig arweiniad i gyrff diwylliannol eraill yng Nghymru ac mewn mannau eraill;
- Gwneud gwaith ymchwil i asesu gwaith yr Amgueddfa i sicrhau bod pob aelod o gymdeithas yn gallu ymweld â'i safleoedd a'i chasgliadau, gan ystyried effaith mynediad am ddim yn benodol.

Cyflawni'r prosiectau cyfalaf, a'r rhaglenni gweithgareddau, sydd wedi eu nodi fel blaenoriaethau yng *Ngweledigaeth yr Amgueddfa ar gyfer y dyfodol*, ac i ymchwilio i ffrydiau ariannu ychwanegol er mwyn eu cyflawni, gan gynnwys:

- Bwrw ymlaen â'r gwaith cynllunio manwl ar gyfer y prosiect i ailddatblygu Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru, ar ôl i Gronfa Treftadaeth y Loteri benderfynu ym mis Gorffennaf 2012 roi arian mawr ar ei gyfer, a pharhau i gydweithio'n llawn â Llywodraeth Cymru i ddatblygu a chyflawni'r prosiect;
- Parhau â'r gwaith cwmpasu i droi llawr gwaelod Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn ofod wedi'i neilltuo ar gyfer Hanes Natur;
- Bwrw ymlaen â'r cynlluniau i wella Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru.

Darparu rhaglen ehangach o weithgareddau mewn partneriaeth ag eraill, gan gynnwys y Cyrff eraill a Noddir gan Lywodraeth Cymru (CNLCau) sy'n perthyn i fy Mhortffolio i, er mwyn sicrhau bod casgliadau'r Amgueddfa o fewn cyrraedd i fwy o bobl drwy Gymru gyfan a helpu i ddarparu gwasanaeth treftadaeth a diwylliant mwy cydgysylltiedig, gan gynnwys:

- Parhau i gefnogi CyMAL i weithredu *Strategaeth Amgueddfeydd Cymru* Llywodraeth Cymru drwy arwain ar bwyntiau gweithredu allweddol sydd â'r nod o gynorthwyo a datblygu'r sector amgueddfeydd ehangach, a chefnogi'r gwaith hwn;
- Parhau i weithio gyda CyMAL ar waith paratoadol i fy nghynghori i ar fframwaith ar gyfer dehongliad gwell o'n hanes cymdeithasol, a'r rôl y mae

pobl Cymru wedi ei chwarae yn natblygiad democratiaeth, yn ogystal â'n mudiadau cymdeithasol pwysig;

- Parhau i weithredu cynllun diwygiedig *Cyfoeth Cymru Gyfan*, gan wneud hynny mewn partneriaeth â CyMAL;
- Chwarae rhan arweiniol yn y bartneriaeth ffederal i ddatblygu rhaglen flaengar *Casgliad y Werin Cymru*;
- Cydweithio â phartneriaid, gan gynnwys CyMAL, Cadw ac amgueddfeydd lleol, i ddatblygu a hyrwyddo'r Cynllun Hynafiaethau Cludadwy yng Nghymru;
- Datblygu ymhellach gysylltiadau strategol cynaliadwy a hirdymor ag amryfal gyrff eraill, gan gynnwys Awdurdodau Parc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro ac Eryri, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru;

Datblygu proffil casgliadau a gweithgareddau ymchwil yr Amgueddfa yn genedlaethol, ar lefel y DU ac yn rhyngwladol, gan gynnwys:

- Hyrwyddo Cymru ar y llwyfan rhyngwladol, a chefnogi'r partneriaethau strategol economaidd, diwylliannol ac addysgol sydd gan Lywodraeth Cymru dramor, drwy ystod o raglenni a gweithgareddau, gan gynnwys cynnal arddangosfa fawr yn Chongqing, Tsieina;
- Datblygu cynigion ar gyfer taith proffil uchel yn UDA yn 2015;
- Parhau i gyfrannu ar y gwaith o gyflawni *Cymru Fyw - Fframwaith yr Amgylchedd Naturiol* a chodi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd am faterion ehangach yn ymwneud â'r amgylchedd a chynaliadwyedd, drwy gydgyssylltu a gwneud gwaith hyfforddi a datblygu ym maes tacsonomeg yng Nghymru.

Gwella a rheoli casgliadau, ystadau ac adnoddau'r Amgueddfa'n effeithiol, drwy:

- Barhau i nodi a manteisio ar gyfleoedd priodol i gynyddu incwm er mwyn cefnogi amcanion hirdymor yr Amgueddfa, drwy gynhyrchu refeniw ar ei safleoedd a thrwy godi arian gydag ymddiriedolaethau, cwmnïau ac unigolion;
- Parhau i nodi a gweithredu arbedion effeithlonrwydd priodol;
- Parhau i gymryd camau priodol i sicrhau bod Cynllun Pensiwn yr Amgueddfa yn gynaliadwy yn y tymor hir;
- Parhau i ddefnyddio adnoddau a gweithgareddau'r Amgueddfa i godi ymwybyddiaeth am faterion amgylcheddol a chefnogi'r *Cynllun Datblygu Cynaliadwy i Gymru a Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd* a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru;
- Parhau i ddatblygu casgliadau'r Amgueddfa er mwyn cyflawni diben ei Siarter.

Dylech nodi yn eich Cynllun Gweithredol sut y byddwch yn mynd ati i gyflawni'r targedau a'r amcanion hyn a bennwyd ar gyfer y flwyddyn. Mae rhagor o wybodaeth am eich Cynllun yn Atodiad 2.

Manylir yn y tablau a ganlyn ar y cymorth grant a roddir i'r Amgueddfa er mwyn cynnal y gwaith hwn.

REFENIW £000oedd	2013-14	2014-15
Costau Rhedeg Gros	24,120	24,204
Derbyniadau	-1,684	-1,768
Dibrisiant	1,120	1,120
Costau Rhedeg Net	23,556	23,556

CYFALAF £000oedd	2013-14	2014-15
Grant Cynnal a Chadw Cyfalaf	600	600
Grant Pwrcasu	538	538
Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru	2,480	2,500

Telir y grant ar yr amod y cydymffurfir â Dogfen Fframwaith yr Amgueddfa. Fel yn achos pob un o gylchoedd cynllunio'r gyllideb, mae blwyddyn 2 yn ddangosol ar hyn o bryd ac at ddibenion cynllunio yn unig.

Rwy'n ddiolchgar iawn am eich brwdfrydedd a'ch ymroddiad chi, a holl Ymddiriedolwyr a swyddogion yr Amgueddfa yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac edrychaf ymlaen at gael gweithio gyda chi ar yr agenda flaengar hon ar gyfer 2013-14.



Huw Lewis AC / AM
Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth /
Minister for Housing, Regeneration & Heritage

Atodiad 1: Y Cefndir i'r Llythyr Cylch Gwaith

Perthynas â Llywodraeth Cymru

Yn ogystal â bod yn gorff sydd â Siarter Frenhinol ac yn Elusen Gofrestredig, mae'r Amgueddfa hefyd yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ac mae felly'n cael cyllid oddi wrthi. CyMAL: Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru yw'r is-adran sy'n noddi'r Amgueddfa. Manylir yn y Ddogfen Fframwaith ar berthynas yr Amgueddfa â Llywodraeth Cymru.

Yr Agenda Strategol

Mae agenda strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2011-2016 i'w gweld yn y *Rhaglen Lywodraethu*. Disgwylir i bob Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad gydnabod yr agenda strategol hon a gweithredu yn unol â hi.

Adolygiadau Llywodraethu o'r Cyrff a Noddir gan Lywodraeth Cymru

Byddwch yn gwybod am y rhaglen o adolygiadau llywodraethu sydd wedi bod yn cael ei chynnal o gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Os bydd y rhaglen hon yn effeithio ar yr Amgueddfa yn ystod 2013-14, bydd swyddogion yn cysylltu â chi cyn gynted ag y bydd y manylion ar gael. Byddwn yn ceisio sicrhau eich bod yn cael o leiaf 6 mis o rybudd cyn i unrhyw adolygiad o'r fath ddechrau.

Cynllunio Strategol a Gweithredol

Mae'r Amgueddfa yn paratoi Cynllun Gweithredol blynyddol sy'n mynd ati i amlinellu'n fanylach sut y bydd yr Amgueddfa yn gweithredu'r blaenoriaethau a'r amcanion y cytunwyd arnynt yn y Llythyr Cylch Gwaith hwn ar gyfer yr Amgueddfa yn 2013-14, ynghyd â manylion ynghylch sut y bydd yn cyflawni ei hamcanion strategol fel y'u nodir ym *Map Gweledigaeth* yr Amgueddfa.

Effeithlonrwydd

Mae'n hanfodol ein bod yn gwella effeithlonrwydd gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru ac yn cael y gwerth gorau o fuddsoddiad cyhoeddus, a hynny er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth gorau posibl yn cael ei ddarparu am yr adnoddau sydd ar gael. Caiff gwybodaeth am effeithlonrwydd ei chasglu ar gyfer pob un o gyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru.

Atodiad 2: Canllawiau ar y Cynllun Gweithredol

Dylech gyflwyno'ch Cynllun Gweithredo drafft ar gyfer 2013-14 erbyn 11 Chwefror 2013. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser i drafod y cynllun gyda'r is-adran sy'n eich noddi er mwyn iddo gael ei gymeradwyo'n derfynol a'i lofnodi gan eich Bwrdd Ymddiriedolwyr ar 28 Chwefror 2013, a minnau yn fuan wedi hynny.

Dangosyddion Perfformiad

Byddwch yn cytuno ar dargedau perfformiad gyda'r is-adran sy'n eich noddi, a bydd y targedau hynny'n cynnwys y targedau craidd canlynol, a gaiff eu monitro gan Lywodraeth Cymru:

- Cyfanswm yr ymweliadau
- Nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu ffurfiol
- Nifer y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu anffurfiol
- Nifer yr ymweliadau â'r wefan
- Nifer y lleoliadau sydd wedi cael benthyg eitemau

Cyflawni

Dylai eich Cynllun Gweithredu nodi sut y byddwch yn:

- Cyflawni a gwerthuso rhaglenni gwaith, gan gynnwys dyrannu adnoddau, pennu cerrig milltir, targedau a risgiau;
- Cyfrannu at waith cyrff cyhoeddus eraill, gan nodi unrhyw gynigion i weithio mewn partneriaeth â CNLCau a phartneriaid eraill, er mwyn helpu i sicrhau canlyniadau allweddol sydd, yn eu hanfod, yn cwmpasu mwy nag un corff;
- Cyfathrebu, meithrin cysylltiadau a chydweithio'n agos â'r Sectorau Gwirfoddol a Phreifat;
- Cefnogi gwaith i weithredu Cynllun Gofodol Cymru a chyflawni Strategaethau Cymunedol yr awdurdodau lleol, lle y bo modd;
- Cefnogi gwaith i weithredu'r Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy;
- Meithrin cysylltiadau ystyrlon â'r cyhoedd drwy eich ymarferion ymgynghori rheolaidd;
- Prif ffrydio datblygiad cynaliadwy¹, cydraddoldeb², gweithio mewn partneriaeth³, a hybu'r Gymraeg⁴ yn y modd yr ydych yn cynnal eich busnes (gan gynnwys gwneud hynny yn eich gwaith rheoli ystadau, yn eich prosesau caffael a thrwy'r gweithgareddau sy'n rhan o'ch rhaglenni), a chydymffurfio â dyletswyddau statudol perthnasol;
- Asesu goblygiadau eich penderfyniadau cyllidebol ar faterion cydraddoldeb;
- Dangos eich ymrwymiad i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru⁵;

¹ Adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

² Adran 77 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ynghyd â dyletswyddau ychwanegol sydd ar y sector cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus 2011.

³ Mae dyletswydd ar Lywodraeth Cymru, o dan adrannau 73, 74 a 75 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, i hybu buddiannau Llywodraeth Leol, y Sector Gwirfoddol a'r Sector Busnes.

⁴ Fel y'i nodir yn adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

⁵ Mae dyletswydd ar awdurdodau Cymru, o dan Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, i lunio eu strategaeth tlodi plant eu hunain.

- Hoffwn eich gweld yn parhau i ymwneud â Rhaglen Cymunedau yn Gyntaf Llywodraeth Cymru, gan fynd ati, lle bo hynny'n briodol, i dargedu gwasanaethau at ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Hoffwn weld manylion ynghylch y gwaith a wneir yn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ac yn arbennig y gwaith â'r ardaloedd clwstwr newydd dan faner Cymunedau yn Gyntaf, yn cael eu cynnwys mewn adroddiadau chwarterol ac adroddiadau blyneddol. Drwy gryfhau'r cysylltiadau hyn, rydym yn anelu at fanteisio i'r eithaf ar y cyfle i gyfuno adnoddau wrth gyflawni gwasanaethau. Bydd hyn yn cyfrannu at leihau'r bylchau sy'n bodoli rhwng teuluoedd sy'n byw mewn aelwydydd incwm isel a'u cyfoedion mwy cefnog o ran iechyd, addysg a sgiliau, a chanlyniadau economaidd.

Cyfathrebu

Dylai Llywodraeth Cymru gael gweld Cynllun Cyfathrebu'r Amgueddfa, a dylai gynnwys trefniadau ar gyfer mesur pa mor effeithiol yw'r camau a gymerir i ymgysylltu â rhanddeiliaid a rhoi gwybod am hynt eich gwaith.

Gan mai chi yw arweinwyr y sector yng Nghymru, yn ddelfrydol, dylai'r Cynllun hefyd esbonio sut y gallwch ddatblygu ymhellach ddulliau a rhwydweithiau er mwyn rhannu arferion gorau a negeseuon ymhlith rhanddeiliaid a darparwyr ar draws y sector. Yn ogystal, dylai'r Cynllun nodi sut y gallwch gydweithio â Llywodraeth Cymru i esbonio ein hymrwymiad i gynnig cyfleoedd i bawb fanteisio ar ein treftadaeth gyfoethog ac amrywiol, gan sefydlu Cymru yn genedl gref a hyderus ar y llwyfan rhyngwladol.

Nid wyf yn bwriadu ailadrodd canllawiau blaenorol mewn meysydd megis Caffael, Diogelu Data, Parhad Busnes a Chyllid Ewropeaidd, ond afraid dweud eu bod yn dal i fod yn berthnasol, a dylech eu cadw mewn cof wrth ymgymryd â'ch busnes arferol.

Atodiad B: Rhaglen Ymchwil

Mae gwaith ymchwil wrth wraidd holl swyddogaethau a hygyddedd amgueddfa genedlaethol. Mae llawer o feysydd arbenigol ein staff naill ai wedi crebachu neu nid ydynt yn cael cymaint o gefnogaeth mewn prifysgolion mwyach (archaeoleg ddiwydiannol, celf, hanes, niwmismateg, bioleg dacsonomaidd, palaeontoleg dacsonomaidd, mwynoleg dacsonomaidd ac ethnograffeg, er enghraifft). Felly, mae gennym gyfraniad allweddol i'w wneud o ran deall treftadaeth, diwylliant ac amgylchedd naturiol Cymru a'i lle yn y byd, a chefnogi'r diddordeb cyhoeddus a phoblogaidd cynyddol yn y meysydd hyn.

Bydd amrywiaeth eang o weithgareddau ymchwil yn parhau yn 2013/14, sy'n cefnogi themâu ein rhaglenni caffael ac arddangos yn ogystal â'n gweithgareddau craidd eraill. Mae nifer ohonynt yn parhau ers y llynedd, gan fod sawl project yn para am ddwy neu dair blynedd. Dim ond detholiad ohonynt sydd wedi'u cyflwyno yma. Mae Bwrdd Ymchwil yn gyfrifol am feithrin a chadw llygad ar waith ymchwil, a'r nod yw sicrhau bod ymchwil yn cyd-fynd â'n Gweledigaeth ni, a bod y gwaith hwnnw'n cael cymaint o adnoddau ag sy'n bosibl o fewn ein cyllidebau tynn.

Ar ôl ennill cydnabyddiaeth fel Sefydliad Ymchwil Annibynnol (h.y. cyfwerth â phrifysgol) gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau a Chyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol, rydym wrthi'n creu fframweithiau ymchwil ar gyfer ein holl feysydd pwnc ac yn nodi lle gall ymchwil y dyfodol ein helpu orau i gyflawni Gweledigaeth yr Amgueddfa.

Dyma rai o'n projectau ymchwil ar gyfer eleni:

Bywyd: deall ein planed a'r amgylcheddau

- Nodweddion a phwysigrwydd metamorffeg isel yng Nghymru ac mewn lleoliadau geotectonig tebyg eraill ledled y byd (mewn cydweithrediad â Phrifysgol Bryste ac *Universidad de Buenos Aires*, yr Ariannin).
- Esblygiad ac affinedd tirweddau Peri-Gondwanaidd yn Ynys Môn a Phen Llŷn. Astudiaeth geocemegol, petrolegol ac isotopig o ddaeareg Neoproterozoïc a Phalaeozoïc gynnar, gan gynnwys adolygiad o fap daearegol Arolwg Daearegol Prydain o Ynys Môn (mewn partneriaeth ag Arolwg Daearegol Prydain, Amgueddfa Hanes Natur Dresden, yr Almaen a Phrifysgol Caerdydd).
- Dadansoddiad tacsonomaidd o fraciopodau, trilobitau a bryosoaid ar gyfer project rhyngwladol Traethawd ar Balaeontoleg Anifeiliaid Di-asgwrn Cefn er mwyn cyflenwi data i'w ddefnyddio wrth asesu cydberthnasau ffawna mewn tirweddau Peri-Gondwanaidd (mewn cydweithrediad â Choleg y Drindod, Dulyn; Amgueddfa Hanes Natur, Llundain; Prifysgol Golestan, Gorgan, Iran a Phrifysgol Uppsala, Sweden).
- Ailwerthusiad o geocemeg creigiau folcanig Is-Balaeozoïc Cymru gyda'r nod o ddarparu dehongliad modern o'r digwyddiadau magmataidd a mwyneiddio sy'n gysylltiedig â chau Cefnfor Iapetus (ar y cyd â Phrifysgol Caerdydd ac Arolwg Daearegol Prydain).
- Cerrig addurnol Gwledydd Prydain. Cychwyn project ar y cyd â phartneriaid ledled y DU ac Iwerddon, dan ein harweiniad ni ac Amgueddfa Hanes Natur Prifysgol Rhydychen, i baratoi gwaith ymchwil a dogfen derfynol ar gerrig addurnol a ddefnyddir yng nghyd-destun pensaernïol a chelf addurnol.
- Project a ariennir gan Sefydliad Leverhulme i ddarparu gwefan i adnabod gwlithod Prydain ac ymchwilio i'r berthynas esblygol rhwng ffawna Prydain a ffawna tir mawr Ewrop.
- Cyfundrefneg Dwyfalfiaid a Pholycetiaid o dryddiferion oer hydrocarbon newydd gafodd eu darganfod ar lwyfandir Rockall. Ar y cyd â Marine Science Scotland a Phrifysgol Copenhagen.
- Cyfundrefneg Dwyfalfiaid cemosynthetig, yn bennaf disgrifiadau a morffoleg Thyasiroidea. Mae partneriaid yn cynnwys Prifysgol Aviero Portiwgal, Prifysgol Talaith Louisiana, *Université Pierre-et-Marie-Curie*, Sefydliad Ymchwil Forol Norwy.
- Tacsonomeg ac ecoleg fflora diatom Ynysoedd Prydain, gan roi sylw arbennig i ecoleg afonydd Cymru. Yn cynnwys parhad o'r project a ariennir gan Ewrop i leddfu asideiddio afon Gwy a phroject i greu gwefan i adnabod diatomau Prydain.

- Tacsonomeg a chyfundrefnau planhigion prin Cymru a rhywogaethau cymhleth o fewn fflora Prydain, yn enwedig y Crwynllys. Ar hyn o bryd, mae'r gwaith hwn yn cynnwys partneriaethau â Phrifysgol Bryste, Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru a Chymdeithas Fotaneg Ynysoedd Prydain.
- Cyfrannu at raglenni bioamrywiaeth Tiriogaethau Tramor Prydain ar fflora a ffawna Ynysoedd y Malvinas/Falkland: rhestri gwirio a thacsonomeg cennau, rhestri gwirio a thacsonomeg mwsoglau, tacsonomeg a bioddaearyddiaeth polycetiaid. Cefnogir y gwaith hwn gan Sefydliad Shackleton ac Ymddiriedolaeth Ynysoedd Falkland, gyda chymorth Canolfan Cymru ar gyfer Ymchwil i'r Amgylchedd, Bangor.
- Cyfraniadau at dacsonomeg a ffylogenedd Pryfed Dawns (Empididae) ac yn enwedig eu rôl o ran deall bioddaearyddiaeth ymlediad cyfandirol ôl-Gondwana yn hemisffer y de. Partneriaeth â'r *Museum d'Histoire Naturelle de Paris*.
- Tacsonomeg a chyfundrefnau pryfed sy'n sugno sudd planhigion: llawlyfr i'r *British Auchenorrhyncha* a monograff o'r pryfed cennau meddal o'r rhanbarthau Palaeartig a dwyreiniol.
- Tacsonomeg a ffylogenedd molysgiaid deufalf morol, gan gynnwys tacsonomeg rhywogaethau cemosymbiotig ac adolygiad o'r uwch-deulu Tellinoidea.
- Cyfrannu at broiect tacsonomeg ac amrywiaeth Plychaeta Norwyaidd (2013-2016) â chymorth grant o £290,225, dan arweiniad cydweithwyr o Norwy, wedi'i seilio'n bennaf ar ddeunydd a gasglwyd yn ystod rhaglen fapio gwely'r môr MAREANO (<http://www.mareano.no/english>), yr oedd staff Amgueddfa Cymru yn rhan ohoni.
- Astudiaethau ar fioleg ac ecoleg cimwch afon America (rhywogaeth oresgynol) mewn pyllau dŵr yng Nghymru. Mae gwahanol agweddau ar y project yn cynnwys cydweithio ag Amgueddfa Hanes Natur, Lundain; Amgueddfa ac Oriel Gelf Bryste, ac ysgoloriaeth ymchwil PhD ym Mhrifysgol Caerdydd.

Gwreiddiau: gwneud synnwyr o'r presennol drwy gysylltu pobl â'u gorffennol.

- Aneddiadau palaeolithig yng Nghymru: cyhoeddi manylion y gwaith cloddio a gynhaliwyd yn Ogof Cathole, Gŵyr.
- Aneddiadau palaeolithig yng Nghymru: paratoi cynllun ymchwil ar gyfer gwneud dadansoddiad ôl-gloddio o ddata a gasglwyd yn ystod gwaith cloddio yn Hoyle's Mouth ac Ogofâu Little Hoyle, Sir Benfro.
- Cymru Fesolithig: parhau gyda rhaglen ymchwil ôl-gloddio ar anheddiad o'r cyfnod Mesolithig cynnar a thai crwn o'r cyfnod cynhanesyddol diweddar yn Burry Holms, Gŵyr.
- Anheddiad o'r Oes Efydd ddiweddar yn Llan-faes, Bro Morgannwg: rhaglen ymchwil ôl-gloddio.
- 'Technoleg a Thrawsnewid': ymchwil i waith metel a gwydr o'r Oes Haearn a Rhufeinig, gan archwilio'r berthynas rhwng technolegau a chelfyddyd pobl mewn cyfnod o drawsnewid.
- Partner ategol project ymchwil pwysig *Atlantic Europe in the Metal Ages: questions of shared language* (2013-16) wedi'i ariannu gan AHRC, dan arweiniad yr Athro John Koch (Canolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd). Fforwm ymchwil rhyngwladol ac aml-ddisgyblaethol (gydag Amgueddfa Cymru), a chyflwyno safbwyntiau ac ymchwil newydd ar archaeoleg, ieithyddiaeth a geneteg.
- Ymchwil i gelciau a chelcoffrymau'r Oes Haearn a'r Oes Efydd yng Nghymru: Burton, Langstone, erthyglau'r Cynllun Henebion Cludadwy/Trysor.
- Gwaith ymchwil ôl-gloddio ar dref Rufeinig Caer-went, Sir Fynwy: adroddiad ar y fforwm-basilica (gyda Phrifysgol Caerdydd); anheddiad sifil Bulmore a Mynwent y Coed, Caerllion.
- Gwaith ymchwil ar aneddiadau a diwylliant Oes y Llychlynwyr/y canoloesoedd cynnar yng Nghymru: Crannog Llyn Syfaddan, Powys a Llanbedr-goch, Môn (adroddiad Llyn Syfaddan i'w gyflwyno ar y cyd â Phrifysgol Caerdydd yn 2013 i'w gyhoeddi gan Oxbow Books).
- *Free Reins and Guiding Hands: Chariot fittings from Western and Central Britain*. Ysgoloriaeth ymchwil PhD a ariennir gan yr AHRC mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerlŷr.
- Tarddiad ac arwyddocâd elfen y garreg las ryolitig a ddoleritig o Gôr y Cewri trwy ddefnyddio petrograffeg a geocemeg lawn a mwynol (mewn cydweithrediad â Choleg y Brifysgol Llundain, y Brifysgol Agored a Phrifysgol Aberystwyth).
- Petroleg offer lithig Neolithig o Gymru – project ymchwil a mynediad er mwyn darparu dehongliadau modern i ategu astudiaethau ar darddiad arteffactau. Bydd cam cynta'r project yn darparu gwybodaeth ar y we i ymchwilwyr annaearegol.
- Catalogio a chyhoeddi celc o ddarnau arian canoloesol o'r Fenni, Sir Fynwy, wedi'u caffael trwy'r Ddeddf Trysorau.

Perthyn: cynrychioli atgofion a phrofiadau diwylliannol pobl a'r hyn y mae'n ei olygu i fyw yng Nghymru yn yr unfed ganrif ar hugain.

- Astudio cynrychiolaeth cymunedau, gan gynnwys rhai heb gynrychiolaeth ddigonol, trwy arddangosiadau a phrojectau ar y cyd, rôl casgliadau cyfoes yn y broses hon ac ymchwilio i'r canlyniadau.
- Ymchwil i gefndir hanesyddol gorsaf heddlu Ffynnon Taf a chyfraith a threfn yng Nghymru.
- Ehangu arolygon o safleoedd mwngloddio metel y Canolbarth a'r Gogledd-ddwyrain i'r Gorllewin a'r De, gan wella dealltwriaeth o'r diwydiant hwn a sefydlu teipoleg o nodweddion Cyhoeddiad wedi'i ariannu gan Cadw (wedi'i ysgrifennu ar y cyd ag Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru).
- *Reclaiming History from the Sea* – cyhoeddiad Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru. Tri thraethawd ar adeiladu llongau, o hwyllo i ager a HMS *Hamadryad*.
- *I hope to have a good passage* – llyfr llythyrau'r Capten Daniel Jenkins, 1902-11, rhifyn o lyfr llythyrau dyddiol capten llong ager o Gaerdydd sy'n rhan o'r casgliadau diwydiannol.
- Dyddio a chatalogio doliau â gwisgoedd Cymreig o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg o gasgliadau cyhoeddus o bob cwr o'r DU ac yn Sain Ffagan. Bydd y gwaith hwn yn ateb galw'r cyhoedd am wybodaeth awdurdodol yn seiliedig ar ymchwil empirig drylwyr.
- Ysgoloriaeth ymchwil PhD ar y cyd â Phrifysgol Cymru Casnewydd ar hanes ffotograffiaeth yng Nghymru, a hefyd ystyried y syniad o greu casgliadau ffotograffau Amgueddfa Cymru o fewn cydestun ehangach datblygu'r cyfrwng.
- Cyfres o seminarau ymchwil i'w cynnal bob chwarter gydol 2013/14, mewn cydweithrediad â Phrifysgol Cymru Casnewydd, sy'n cnoi cil ar ffotograffiaeth a'r amgueddfa, gan roi Amgueddfa Cymru yn ganolog i rwydwaith newydd o gydweithwyr â diddordeb ymchwil yn y maes hwn.

Creadigrwydd: dathlu creadigrwydd celf ac artistiaid, dyfeiswyr a dyfeisiau a'r syniadau sydd wedi ysbrydoli ein byd.

- Ymchwil i waith J. D. Innes yn barod ar gyfer arddangosfa o'i waith, gan gynnwys ei luniau dyfrlliw cynnar, tirluniau o Gymru a Ffrainc a'i berthynas waith ag Augustus John ac arlunwyr eraill.
- Cwpan aur o 1662 a'i chyd-destun: cyflwynwyd i eglwys blwyf y Trallwng gan Thomas Davies, asiant yr *East India Company* yng Ngorllewin Affrica a pherchennog planhigfa ar ynys Barbados.
- Cyhoeddiad ar gerameg Gymreig yng nghasgliad Amgueddfa Cymru, gan gynnwys agweddau ar hanes cymdeithasol, dulliau cynhyrchu a threfniadau ffatrioedd, i gyd-fynd â deucanmlwyddiant porslen Cymreig yn ogystal ag aildehongliad o oriel Cerameg Cymru.
- *Ymchwilio a Datgelu*: project ymchwil ar y cyd sy'n cynnwys ymchwil ac ailarddangos paentiadau o gasgliad Amgueddfa Cymru o gelf Ffrengig o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg gan chwe myfyriwr ôl-raddedig o Brifysgol Bryste, a ariennir gan fwrsariaeth o £5,000 gan Gymdeithas yr Haneswyr Celf.
- Ymchwil barhaus i ddeunyddiau a thechnegau Richard Wilson, ei gyfoedion a'i ddilynwyr, un o nifer o brojectau sy'n rhagflaenu arddangosfa bwysig i ddathlu trichanmlwyddiant yr artist yn 2014.
- Dadansoddiad pelydr-X arloesol o'r casgliad o borslen Cymreig mewn partneriaeth â'r *Centre for Archaeological and Forensic Analysis* ym Mhrifysgol Cranfield, Lloegr, i wella'r gwaith o briodoli a dyddio gwrthrychau o fewn y casgliad a deall eu harwyddocâd yng nghyd-destun arloesedd gwyddonol y cyfnod.
- Gwaith ymchwil i ffurfiant Grŵp 56 Cymru, gydag ymchwil fanwl i archifau'r grŵp, i baratoi ar gyfer arddangosiad yn Oriel 13.
- Celf ac archifau Graham Sutherland: eu rhoi yng nghyd-destun ehangach celf yr ugeinfed ganrif ac ystyried y posibilrwydd o ddehongli trwy gasgliadau archifol.

Y Dyfodol: trafod a chysylltu â materion a fydd yn llunio'r byd yfory.

- Planhigion ffosil, eu tacsonomeg, eu hesblygiad a'u rôl mewn perthynas â dehongli newid yn yr hinsawdd ddoe a heddiw. Ar hyn o bryd trwy Broject Cydberthynas Ddaearegol Rhyngwladol sy'n ymchwilio i fflora carbonifferaidd dwyrain a gorllewin Ewrop.

Arferion Amgueddfa

- Cadw biofalecylau mewn casgliadau a gedwir mewn hylif.
- Gweddillion plaladdwyr mewn casgliadau hanes natur.

Atodiad C: Rhaglen Addysg

1. Datblygu ein hamgueddfeydd o safon ryngwladol er mwyn ysbrydoli dysgu a chysylltu pobl â'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol
Parhau i weithio gyda chydweithwyr curadurol er mwyn datblygu syniadau a chynnwys arddangosfeydd.
Gweithio gyda chydweithwyr curadurol i werthuso oriel Cipolwg, a gweithredu newidiadau.
Cyfrannu at ddatblygiad gofodau dysgu newydd yn Sain Ffagan fel rhan o'r project ailddatblygu.
Cydlunu'r gwaith logisteg sy'n gysylltiedig â symud gweithdai a'r gofod i ysgolion o amgylch Sain Ffagan am gyfnod dros dro oherwydd gwaith ailddatblygu, gyda staff gweinyddol.
Profi syniadau ar gyfer defnyddio mannau dysgu newydd Sain Ffagan gyda fforwm cyfranogol dysgu anffurfiol a dysgu fel oedolion.
3. Denu cynulleidfaoedd penodedig â blaenoriaeth
Teuluoedd:
Byddwn ni'n cynllunio a chyflwyno rhaglen amrywiol o weithgareddau dysgu fel teulu ar draws ein hamgueddfeydd, yn enwedig ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau ysgol.
Byddwn ni'n cyhoeddi adnoddau sy'n helpu teuluoedd i gael profiadau dysgu cyfoethocach yn ein hamgueddfeydd.
Bydd ein holl amgueddfeydd yn datblygu cardiau post ar gyfer disgyblion sy'n ymweld mewn grwpiau ysgol, er mwyn eu hannog i ddychwelyd gyda'u teuluoedd – mewn ymateb i ymchwil ymwelwyr BDRC.
Hefyd, byddwn ni'n:
Datblygu a chyflwyno sesiynau penwythnos 'Archwilio, Canfod, Creu...', sydd wedi'u hariannu'n allanol, i deuluoedd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Chwilio am nawdd ariannol i ehangu'r rhaglen boblogaidd hon ar ôl mis Mehefin 2013 pan ddaw'r trefniadau ariannu presennol i ben.
Trefnu mentrau dysgu sy'n ymwneud â Diwrnod y Llyfr 2014 yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, ar y cyd â grwpiau ysgolion a theuluoedd.
Cynnig sesiynau i grwpiau cymuned yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau fel bod y profiad o ymweld ag amgueddfa yn llai o ddirgelwch (yn enwedig i rieni plant ifanc), a defnyddio gweithgareddau a theithiau i helpu'r sawl sy'n cymryd rhan i deimlo'n fwy cyffyrddus wrth ymweld ag amgueddfa – a safleoedd treftadaeth eraill – yn y dyfodol.
Datblygu a threialu cyfres o weithdai i deuluoedd ifanc yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru. Gwerthuso ac ymchwilio i'r syniad o gynnal y gweithdai hyn bob mis.
Byddwn ni'n dathlu Wythnos Dysgu fel Teulu yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ac yn Amgueddfa Lechi Cymru, gyda theithiau i deuluoedd o amgylch Chwarel Vivian. Byddwn yn lansio taflen i deuluoedd er mwyn

annog oedolion i ddod i Amgueddfa Wlân Cymru, ac yn lansio adnodd iaith a chwarae newydd yn Big Pit ar Ddiwrnod Dysgu fel Teulu.
Byddwn ni'n mynd ati i ddatblygu'r mentrau canlynol gyda <u>Theuluoedd yn benodol er mwyn mynd i'r afael ag agenda tlodi plant Llywodraeth Cymru</u>
Gweithio gyda'r rhaglen Teuluoedd yn Dysgu gyda'i Gilydd er mwyn datblygu project amgueddfa gyfan yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd er mwyn annog rhagor o ymweliadau gan deuluoedd.
Gweithio gyda Dechrau'n Deg i ddatblygu adnoddau i deuluoedd â phlant hyd at 5 oed yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
Adeiladu ar y berthynas â disgyblion Blwyddyn 3/4 Ysgol Gynradd Kitchener a'u rhieni, er mwyn datblygu adnodd i deuluoedd yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, wedi'i llywio gan ganran uchel o deuluoedd y mae'r Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt.
Meithrin perthynas â Teuluoedd yn Dysgu gyda'i Gilydd Caerdydd, trwy gyfrwng fforwm cyfranogol yn Sain Ffagan, er mwyn datblygu syniadau newydd ar gyfer eu rhaglenni.
Cyflwyno dau ddiwrnod 'rhoi'r gorau i'r gwaith' gyda'r contractwyr adeiladu newydd yn Sain Ffagan er mwyn rhoi cyfle i deuluoedd o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf Lleol gael blas ar rai o'r gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r gwaith adeiladu e.e. mathru sment. (gweler y cynllun gweithgareddau, rhif 45).
Gweithio gyda Grŵp Rhieni Ysgol Gynradd San Helen er mwyn chwalu'r dirgelwch ynghylch y profiad o fynd i amgueddfa ac ennyn eu diddordeb yn addysg eu plant. Bydd y project yn datblygu Llinell Amser ysgol a chymuned San Helen. Anogir y Grŵp Rhieni i roi gwybodaeth ar wefan Casgliad y Werin Cymru.
Gweithio gyda rhieni ifanc a theuluoedd incwm isel yng nghynllun chwarae'r DVLA, drwy'r YMCA, er mwyn eu hannog i ymweld ag Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.
Gweithio mewn partneriaeth â grwpiau sy'n gofalu am blant sy'n derbyn gofal er mwyn cynnig profiad gwerth chweil yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau i blant mewn gofal e.e. trwy sefydliadau fel Barnardo's.
Cynllunio profiadau gwell i ymwelwyr er mwyn cynnig amgylchedd croesawgar, diogel a chyfeillgar i deuluoedd o bob cefndir sy'n dod i Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.
Meithrin cysylltiad â chynlluniau lleol Teuluoedd yn Dysgu gyda'i Gilydd a Dechrau'n Deg er mwyn datblygu cyfleoedd partneriaeth yn Amgueddfa Lechi Cymru.
Datblygu a hwyluso cyfres o weithdai allgymorth gyda grwpiau Dechrau'n Deg ar thema Teganau a Gemau yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru.
Cyflwyno Diwrnod Hwyl i'r Teulu er mwyn dathlu Gŵyl Ddewi yn Amgueddfa Wlân Cymru, mewn partneriaeth â Menter Gorllewin Sir Gâr, Cered a Twf – gan dargedu teuluoedd sy'n mynychu sesiynau Teuluoedd yn Gyntaf yn Llanybydder a Phencader.
Datblygu adnoddau iaith a chwarae newydd i deuluoedd, mewn cydweithrediad â chydlynwyr iaith a Chwarae a Dechrau Da Torfaen.
Byddwn ni'n datblygu'r mentrau canlynol gyda <u>Chymunedau er mwyn mynd i'r afael ag agenda tlodi plant Llywodraeth Cymru</u>
Datblygu a chyflwyno rhaglen ddysgu i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant mewn pocedi Cymunedau yn Gyntaf o fewn dwy ardal gydgyfeirio (Rhondda Cynon Taf a Chaerffili) er mwyn eu paratoi'n well ar gyfer byd gwaith (mae'r project hwn yn dibynnu ar gais allanol llwyddiannus Porth Cyflogaeth, am arian Ewropeaidd.

Cydweithio â Phrifysgol Caerdydd ar broject wedi'i ariannu gan RCUK, i wella cysylltiadau rhwng y gymuned ag ysgolion mewn ardaloedd hynod ddifreintiedig.
Datblygu'r fenter straeon digidol gyda'r <i>National Portrait Gallery</i> , Llundain, fel rhan o broject wedi'i ariannu gan Hamlyn. Bydd <i>National Memory, Local Story</i> yn cynnwys artistiaid a gwneuthurwyr ffilmau yn cydweithio ar fenter i bobl ifanc, i gofio canrif ers dechrau'r Rhyfel Mawr.
Cydweithio â <i>Media Academy Cardiff</i> ac <i>Associated Community Training</i> ar sesiynau rheolaidd, gan gyfrannu at ddarparu hyfforddiant sgiliau a gweithgareddau ystyrion sy'n mynd i'r afael â'r rhwystrau a'r heriau sy'n wynebu eu dysgwyr – gan gynnwys lefelau addysg gwael, diweithdra, diarddel o'r ysgol neu sgiliau sylfaenol gwael.
Datblygu nodau ac amcanion ar gyfer arddangosfeydd 'Porthi'r Meddwl' yn Sain Ffagan ar y cyd â chymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (gweler y cynllun gweithgareddau, rhif 34)
Gweithio'n agos gyda threfnwyr Cymunedau yn Gyntaf i gyflwyno project cydlyniant cymunedol, sy'n cynnig ffyrdd o ddarganfod diwylliant a threftadaeth Cymru drwy brofiadau a gweithgareddau Amgueddfa Genedlaethol y Glannau (mewn partneriaeth â <i>Race Council Cymru</i> ac Abertawe Dinas Noddfa).
Gweithio mewn partneriaeth â chymunedau pobl dduon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig i drefnu digwyddiadau yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru.
Datblygu arddangosfa gymunedol gydag Ysgol Gynradd Blaenafon, fel rhan o ddathliadau pen-blwydd Big Pit yn 30 oed.
Paratoi adnoddau i ddathlu Wythnos y Ffoaduriaid 2013 yn Amgueddfa Lechi Cymru.
Pobl Ifanc:
Byddwn ni'n annog cefnogaeth i bwyslais Llywodraeth Cymru ar fynd i'r afael â thlodi plant drwy roi llais i bobl ifanc, trwy ddatblygu rôl a gwaith fforymau ieuencid ein holl amgueddfeydd.
Hefyd, byddwn yn datblygu'r mentrau canlynol i bobl ifanc:
Datblygu perthynas waith â chanolfannau cymuned a'u staff er mwyn annog pobl ifanc 14-24 oed i ymgysylltu ag Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd. Gweithio gyda staff curadurol er mwyn cynnal diwrnodau agored i fyfyrwyr.
Cyflwyno cwrs dehongli amgueddfeydd i bobl ifanc, gyda phwyslais ar wella'r orielau hanes natur ar gyfer cynulleidfia darged. Gweithio mewn partneriaeth â Gŵyl Ddysgu'r Haf Caerdydd. Hyrwyddo ymlaen llaw ymysg ysgolion Cymunedau yn Gyntaf.
Cyflwyno rhaglen wythnos o weithgareddau yn ystod gwyliau'r haf i grwpiau ieuencid, sy'n gysylltiedig ag arddangosfa <i>Pop a Haniaethol</i> yn Adain Orllewinol Uchaf Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.
Cynnal Cystadleuaeth i Golegau yn Amgueddfa Wlân Cymru mewn cydweithrediad â Phrifysgol Fetropolitan Abertawe, Prifysgol Fetropolitan Caerdydd, Coleg Iâl Wrecsam a Choleg Sir Gâr, ynghyd â Chanolfan y Cwilt Cymreig a Chastell Aberteifi.
Ymchwilio i'r posibilrwydd o sefydlu project partneriaeth ag asiantaethau lleol sy'n cefnogi plant sy'n derbyn gofal yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru.
Fel rhan o ymgyrch 'Diwrnod Meddiannu Amgueddfeydd' Plant mewn Amgueddfeydd, byddwn ni'n:
Darparu cyfleoedd i ddisgyblion ysgol fod yn gyfrifol am Flog Athro'r Ardd – fel rhan o raglen Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy Amgueddfa Cymru.
Datblygu digwyddiad i bobl ifanc yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau a fydd yn rhoi cipolwg ar

amgueddfeydd, ac yn darparu gwybodaeth newydd i'r Amgueddfa ei defnyddio yn y dyfodol.
Dyfeisio menter rhwng Amgueddfa Lechi Cymru a'r ysgol leol, Ysgol Brynrefail. Datblygu swyddogaethau curadurol a chadwraethol y gall pobl ifanc eu cyflawni, yn unol ag anghenion penodol y grŵp.
Creu project gyda grwpiau ieuencid Neon a Doorway Blaenafon yn Big Pit.
Dathliad yn Amgueddfa Wlân Cymru – naill ai trwy weithio gyda thîm pêl-droed Bargod Rangers i guraduro arddangosfa'n seiliedig ar eu hanes neu trwy ddatblygu project lle bydd disgyblion yn cynllunio a chreu canllawiau difyr i'r Amgueddfa Wlân, gyda gwybodaeth a gweithgareddau'n gysylltiedig â'r Amgueddfa a'i chasgliadau.
Siaradwyr a Dysgwyr Cymraeg:
Darparu gweithgareddau ac adnoddau dysgu anffurfiol i ddysgwyr Cymraeg yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd a gweithio gyda darparwyr dysgu Cymraeg i hyrwyddo eu cyrsiau a'u hadnoddau. Cefnogi'r ddarpariaeth Gymraeg sydd eisoes ar gael yn yr Amgueddfa fel Taith Iaith a chysiau Cymraeg i'r staff. Cyfrannu at ŵyl Tafwyl yn y brifddinas i hyrwyddo gweithgareddau cyfrwng Cymraeg.
Datblygu teithiau tywys i ddysgwyr Cymraeg o amgylch oriel Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru.
Cynnal sesiynau 'Dewch i Ganu' er mwyn helpu dysgwyr i ddysgu Cymraeg trwy gyfrwng caneuon, yn Amgueddfa Wlân Cymru.
Datblygu a hyrwyddo gweithgareddau i siaradwyr iaith gyntaf a dysgwyr yn Eisteddfod yr Urdd.
Y Blynyddoedd Cynnar:
Darparu gweithgareddau ac adnoddau dysgu anffurfiol ar gyfer y blynyddoedd cynnar, yn enwedig trwy Ganolfan Ddarganfod Clore, a sicrhau eu bod ar gael yn yr Amgueddfa ac ar-lein.
Gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau'r Blynyddoedd Cynnar i wella lefelau llythrennedd a chwalu'r dirgelwch o ymweld ag Amgueddfa, gan gynnwys grwpiau Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Dysgu gyda'i Gilydd, Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau Da.
Datblygu a threialu sesiynau newydd ar gyfer grwpiau'r blynyddoedd cynnar yn Big Pit, mewn cydweithrediad â Dechrau'n Deg a Gwasanaeth Chwarae Torfaen.
Pobl Hŷn:
Sefydlu a chydgysylltu arddangosfa Urdd y Troellwyr, Gwehyddwyr a Lliwyddion yn Amgueddfa Wlân Cymru.
Datblygu canllawiau sesiynau hel atgofion ar gyfer cydlynwyr gweithgareddau mewn lleoliadau gofal, fel gweithgaredd allgymorth gan Big Pit.
Gweithio gydag Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro ar broiect rhyng-genhedlaeth er mwyn rhannu sgiliau rhwng oedolion â chlefyd Alzheimer a phlant yn Sain Ffagan.

Addysg Oedolion
Bydd Swyddogion Addysg yn gweithio gyda chydweithwyr yn yr amgueddfa, gan gynnwys staff curadurol a swyddogion digwyddiadau, er mwyn cefnogi'r gwaith o ddatblygu cyfleoedd addysg hamdden gwerth ychwanegol, am dâl, i oedolion.
Helpu i gyflwyno Wythnos Addysg Oedolion yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd mewn cydweithrediad â chydweithwyr digwyddiadau a churadurol.
Dathlu Wythnos Addysg i Oedolion yn Amgueddfa Lechi Cymru, gyda digwyddiad Dysgu yn y Gwaith.
Darparu digwyddiad arbennig Diwrnod Sgiliau Amgueddfa fel rhan o'r Wythnos Addysg i Oedolion yn Big Pit.
Datblygu a chyflwyno rhaglen o weithdai i oedolion fel lliwio naturiol, gweithdai uwchgylchu gwnïo, diwrnod nyddu i ddechreuwyr, rygiau rhacs, crosio i ddechreuwyr a gwehyddu helyg yn Amgueddfa Wlân Cymru.
Trefnu a chyflwyno Diwrnod Symposiwm ar Decstilau yn Amgueddfa Wlân Cymru gydag arbenigwyr blaenllaw ar decstilau ar gyfer rhai â diddordeb brwd yn y maes.
Darparu sesiynau misol Gwneud a Thrwsio i oedolion yn Amgueddfa Wlân Cymru.
Tlodi Plant ac Ysgolion
Trefnu menter yr Heuldro 2013 ym Mryn Celli Ddu, Ynys Môn, gan gynnwys taith gydag ysgolion Cymunedau yn Gyntaf.
Gweithio gyda phump o'r ysgolion 'Start' o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf Caerdydd ar broject sy'n gysylltiedig ag arddangosfeydd celf Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.
Gweithio gyda myfyrwyr gwyddoniaeth uwchradd Cymunedau yn Gyntaf ar ddiwrnod trafod materion gwyddoniaeth gyfoes, mewn partneriaeth â Campws Cyntaf.
Gweithio gyda myfyrwyr uwchradd Cymunedau yn Gyntaf a Gyrfa Cymru er mwyn cynnal gweithdai trafod oddi ar y safle ar Newid yn yr Hinsawdd, gan gyfuno technegau 'Athroniaeth i Blant', fel rhan o raglen Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy Amgueddfa Cymru.
Cydweithio â phum ysgol gynradd yng Nghastell-nedd Port Talbot sy'n derbyn dros 20% o brydau ysgol am ddim, ar broject wedi'i ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri sy'n bwrw golwg ar baentiadau Blasty Margam.
Cychwyn project gydag ysgolion cynradd Cymunedau yn Gyntaf er mwyn profi syniadau ar gyfer her bioamrywiaeth/garddio trefol yn ystod tymor yr haf, gan adeiladu ar lwyddiant project Bylbiau'r Gwanwyn i Ysgolion.
Ailadeiladu'r Pentref Celtaidd yn Sain Ffagan: targedu ysgolion mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, yn enwedig cymunedau lleol Trelái a Thyllgoed, ar gyfer gweithdai sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r Pentref Celtaidd fel Bryn Eryr (gweler y cynllun gweithgareddau, rhif 47).
Meithrin partneriaeth rhwng Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ac Ysgol Gynradd San Helen. Blaenoriaethu gweithgareddau STEM (gwyddoniaeth, technoleg, peirianeg a mathemateg) ar gyfer disgyblion a hyfforddiant llythrennedd yn yr amgueddfa ar gyfer athrawon.
Bydd Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn rhoi blaenoriaeth i ysgolion o ardaloedd difreintiedig weld ein casgliadau – gan anfon llyfrynau ynghynt, cynnal lleoliadau profiad gwaith a chyfleoedd lleoliadau athrawon. Bydd yr Amgueddfa yn adeiladu ar waith partneriaeth sefydledig gyda thair ysgol gynradd leol sydd o fewn pellter cerdded i'r Amgueddfa, a lle mae dros 40% o'r disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Cynnig mynediad gwerth ychwanegol i ddigwyddiadau penodol a chyfleoedd hyfforddiant i athrawon yn yr amgueddfa.
Datblygu cynnig effeithiol y gellir ei gynnig yn rhagweithiol i ysgolion arbennig ac unedau atgyfeirio sy'n ymweld ag Amgueddfa Lechi Cymru, gan adeiladu ar gysylltiadau diweddar ag ysgol arbennig Ysgol Tir Morfa, y Rhyl.
Treialu sesiwn rhifedd a llythrennedd newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen yn Big Pit.
Gweithio gyda dwy ysgol naill ai o fewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf neu a nodwyd fel rhai â chanran uchel o brydau ysgol am ddim, er mwyn creu nofel graffig/llyfr comig ar gyfer Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru. Bydd cwblhau ail gam y llyfr comig yn sicrhau bod gan yr Amgueddfa Lleng Rufeinig gyfres o gomics ar thema Rufeinig y gellir eu defnyddio fel adnoddau cyn ac ôl-ymweliad i ysgolion neu deuluoedd ifanc, yn yr oriel.
Datblygu project gydag ysgolion â blaenoriaeth (tlodi plant) yn Sir Benfro er mwyn rhoi ar waith fenter yn arwain at Eisteddfod yr Urdd Sir Benfro ym Moncath.
Adeiladu ar y berthynas a gafodd ei meithrin cyn Eisteddfod yr Urdd, er mwyn sefydlu a chryfhau'r cysylltiadau rhwng Amgueddfa Wlân Cymru ac ysgolion Sir Benfro.
Addysg Mwy Ffurfiol:
Cynnig diwrnod 'Sgiliau creadigol a diwylliannol', mewn partneriaeth â'r Cyngor Sgiliau Creadigol, sy'n rhoi sesiynau blas i ddisgyblion 13-16 oed ar yrfaoedd yn y sector treftadaeth ddiwylliannol.
Cyflwyno gweithdai i ysgolion gydol y flwyddyn, ac adolygu'r angen i'w haddasu yn sgil y bwriad arfaethedig i godi tâl am sesiynau wedi'u hwyluso.
Datblygu a chyflwyno diwrnod gyrfaedd STEM ar gyfer myfyrwyr ysgolion uwchradd, mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, gan sbarduno llwybrau i addysg uwch yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.
Datblygu a chyflwyno rhaglen o weithgareddau am flwyddyn sy'n gysylltiedig â'r arddangosfa <i>Pop a Haniaethol</i> ac arddangosiad <i>Land Art</i> , gyda chymorth ariannol gan Ymddiriedolaeth Colwinston.
Bydd Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn datblygu'r ddarpariaeth Bagloriaeth Cymru ymhellach ac yn ei chyflwyno i gynulleidfaoedd newydd a'i hyrwyddo i ddefnyddwyr cyfredol, gan gynnig Arferion Gorau.
Bydd Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn creu sesiynau i gyd-fynd â chynhyrchiad drama Theatr na n'Og am Alfred Russel Wallace, gan weithio gyda'r theatr ac Amgueddfa Abertawe.
Bydd Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn dyfeisio a chyflwyno sesiynau addysgol sy'n gysylltiedig â'r arddangosfa am drydan.
Cydweithio â'r cwrs Celf Sylfaen yng Ngholeg Menai fel y gall myfyrwyr ddefnyddio llechi ac Amgueddfa Lechi Cymru fel ysbrydoliaeth i'w gwaith. Trefnu arddangosfa a fydd yn ffrwyth llafur y gwaith hwnnw yn yr Amgueddfa.
Datblygu sesiwn allgymorth ar Saturnalia sy'n addas ar gyfer Cyfnodau Allweddol 1 a 2 yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru.
Cyflwyno digwyddiad dysgu arbennig i ysgolion ynglŷn â'r Ail Ryfel Byd, sy'n cynnwys Big Pit ar y cyd â Cadw a Thirweddau Angof.
Gweithio ar broiect tecstilau gydag Ysgol y Ddwylan, yn seiliedig ar y thema 'Patrymau Natur', gan alluogi Amgueddfa Wlân Cymru i gefnogi'u gwaith ar gyfer Eisteddfod yr Urdd.
Cyflwyno cyfres o weithdai tecstilau gydag Ysgol Penparc yn Amgueddfa Wlân Cymru.

Bydd ein holl amgueddfeydd yn datblygu adnoddau dan arweiniad athrawon, er mwyn hybu ymweliadau heb eu hwyluso gan ysgolion. Yn benodol, byddwn ni'n:
Creu adnoddau dysgu newydd i athrawon fel y gallant arwain eu sesiynau eu hunain wrth ymweld ag Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, gan gynnwys adnoddau ar gyfer Canolfan Ddarganfod Clore.
Datblygu adnoddau cynaliadwy hunangyfeiriedig ar gyfer athrawon sydd am ddefnyddio Amgueddfa Genedlaethol y Glannau heb sesiwn wedi'i hwyluso.
Ymgynghori ag athrawon Cyfnod Allweddol 2 ar y meysydd, pynciau neu'r themâu mwyaf defnyddiol i'w datblygu fel adnoddau dan arweiniad athrawon, er mwyn ategu ymweliadau ag Amgueddfa Lechi Cymru.
Gweithio gydag athrawon i werthuso'r adnoddau sydd ar gael yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru ar hyn o bryd, a chynyddu'r ddarpariaeth ar-lein o ran gwybodaeth a gweithgareddau cyn ac ôl-ymweliad.
Datblygu adnoddau â chysylltiad penodol â'r meysydd Rhifedd a Llythrennedd, ar gyfer ymweliadau hunangyfeiriedig yn Amgueddfa Wlân Cymru.
Paratoi deunyddiau ar gyfer ymweliadau hunangyfeiriedig i fyfyrwyr Bagloriaeth Cymru yn Amgueddfa Wlân Cymru.
Treialu deunyddiau hunandywys newydd gydag athrawon sy'n ymweld â Big Pit.
Byddwn ni'n adolygu ein gweithdai yn sgil y pwyslais ar yr adolygiad o'r cwricwlwm, sgiliau â blaenoriaeth a dysgu wrth ymholi. Yn arbennig, byddwn ni'n:
Paratoi nodiadau athrawon ar gyfer pob gweithdy yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd, a fydd yn canolbwyntio ar sgiliau â blaenoriaeth a dysgu trwy holi.
Datblygu sesiynau newydd penodol ar Rifedd a Llythrennedd, gan sicrhau cyfleoedd dysgu wrth ymholi. Datblygu sesiynau sy'n bodoli eisoes i gynnwys Rhifedd, Llythrennedd a dysgu trwy holi wrth wraidd y sesiynau.
Ystyried a datblygu cyfleoedd i ysgolion astudio Bagloriaeth Cymru yn Amgueddfa Wlân Cymru.
Bydd ein hamgueddfeydd yn cyflwyno diwrnodau/sesiynau hyfforddiant a gwybodaeth er mwyn hyrwyddo ymweliadau dan arweiniad athro. Yn benodol, byddwn ni'n:
Cyflwyno diwrnodau cynefino i athrawon bob tymor yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd er mwyn helpu athrawon i fagu hyder mewn arwain eu sesiynau eu hunain yn yr oriel, datblygu sgiliau allweddol ac ystyried sut i gysylltu ymweliadau â'u cynlluniau gwaith cyfredol.
Ffurfioli'r sesiynau cyn-ymweliadau sydd eisoes yn digwydd yng Nghanolfan Ddarganfod Clore ar benwythnosau, trwy gynnig diwrnodau athrawon bob tymor.
Treialu ffyrdd gwahanol o ddenu athrawon, fel cynnal sesiynau cynefino ar ddydd Sadwrn, ar ôl ysgol ac yn ystod yr wythnos, yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.
Cynnal diwrnod athrawon er mwyn hyrwyddo adnoddau Bagloriaeth Cymru yn Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru, ar gyfer sesiynau dan arweiniad athro a sesiynau wedi'u hwyluso gan yr amgueddfa.
Darparu diwrnod hyfforddiant ar gyfer athrawon ysgol gynradd sy'n dysgu Cymraeg, ar weithgareddau ac adnoddau dysgu Cymraeg sydd ar gael yn Sain Ffagan, mewn cydweithrediad â Chanolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a'r Fro.
Darparu sesiynau i esbonio'r cynigion hunangyfeiriedig sydd ar gael i athrawon yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.

Cyflwyno diwrnod athrawon er mwyn cefnogi ymweliadau dan arweiniad athro i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 yn Amgueddfa Lechi Cymru.

Byddwn ni'n gweithio gydag arbenigwyr allanol i ddatblygu cyfleoedd Datblygu Proffesiynol Parhaus (DPP) i athrawon, yn seiliedig ar flaenoriaethau addysgol presennol. Byddwn ni'n:

Trefnu diwrnod athrawon yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd ar sgil allweddol Llythrennedd, gan ddarparu cyfle DPP a chyfle i ymarfer syniadau newydd yn ein horielau.

Cyflwyno diwrnod hyfforddiant i athrawon yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau ar thema môr-ladron. Bydd y bardd Francesca Kay yn adrodd stori Barti Ddu ac yn arwain gweithdy barddoniaeth am fôr-ladron cyn llwyfannu perfformiad cerddorol o'i cherdd *Sea Dogs* yn ystod tymor yr haf.

Cydweithio ag arbenigwr y Cyfnod Sylfaen i archwilio'r potensial o gyflwyno addysg y blynyddoedd cynnar yn Amgueddfa Lechi Cymru. Trefnu diwrnod athrawon gyda'r arbenigwr i hyrwyddo a rhannu syniadau.

Gweithio gydag arbenigwr llenyddiaeth, llythrennedd neu adrodd straeon er mwyn cyflwyno diwrnod athrawon yn Amgueddfa Wlân Cymru.

5. Cyfleu ein casgliadau a'n hatgofion ni i gyd trwy adrodd straeon perthnasol, ystyrion ac addysgiadol

Cynnal *Llafur*, arddangosfa Josef Herman, o fis Ebrill tan fis Medi, a chyflwyno sesiynau dysgu i gyd-fynd â'r arddangosfa yn yr haf.

Gosod arddangosfa fewnol am gamlesi'r wlad yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.

Ymchwilio i, a chreu, arddangosfa am yr holl ddulliau gwahanol o gynhyrchu trydan yng Nghymru, yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.

Cydweithio â Bargod Rangers, tîm pêl-droed lleol ardal Amgueddfa Wlân Cymru, i gasglu straeon, lluniau a phethau cofiadwy sy'n seiliedig ar hanes y clwb, o ddiwedd yr ugeinfed ganrif hyd heddiw. Bydd yn cynnwys effaith y ddau ryfel byd ar y clwb, gan y byddai llawer o'r dynion ifanc wedi ymladd ar y ffrynt. Defnyddio'r wybodaeth a gesglir i guraduro arddangosfa, a phroject addysgol gyda'r tîm cyfredol (posibilrwydd o'i ddatblygu ar gyfer Casgliad y Werin Cymru).

Trefnu cyfres o ddigwyddiadau i ddathlu pen-blwydd Big Pit yn 30 oed gan gynnwys taith gerdded treftadaeth gymunedol, mewn cydweithrediad â Thirweddau Angof.

6. Ehangu ein partneriaethau cymunedol, strategol ac ariannol

Gwaith cymunedol arall

Bydd Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn cynorthwyo cymunedau i ddatblygu digwyddiadau wedi'u curaduro gan y gymuned fel rhan o Fis Hanes Pobl Dduon (mis Hydref). Gweithio mewn partneriaeth â darparwyr eraill i greu dathliad cynhwysfawr a phleserus i ddathlu hanes a diwylliant pobl dduon.

Bydd y Rhaglen Addysg yn creu cyfleoedd Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd er mwyn datblygu'r ddarpariaeth addysg ffurfiol, mentrau tlodi plant a darpariaeth i grwpiau dan anfantais.

Ymgynghori ar ddatblygu darpariaeth addysg ffurfiol

Gwerthuso gwefannau addysg newydd Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd gydag athrawon.
Ymgynghori ag athrawon a disgyblion er mwyn helpu i wella'r hyn mae Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn ei gynnig i ysgolion, a mesur effaith codi tâl am ymweliadau a hwylusir.
Bydd Sain Ffagan yn defnyddio'r fforymau cyfranogi a sefydlwyd fel rhan o'r project ailddatblygu er mwyn datblygu darpariaeth addysg ffurfiol yr Amgueddfa.
Bydd Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn cymryd rhan mewn arolwg defnyddwyr traws-ganolfan o grwpiau addysg ffurfiol er mwyn nodi eu profiadau o ymweld a dysgu ymhob amgueddfa, er mwyn sicrhau bod y safonau uchaf yn cael eu cyflawni a'u cynnal.
Bydd Amgueddfa Lechi Cymru yn ymgynghori ag athrawon Cyfnod Allweddol 2 er mwyn datblygu adnoddau dan arweiniad athro i gyd-fynd ag ymweliadau â'r Amgueddfa.
Coladu gwerthusiadau o ymweliadau gan athrawon.
Bydd Amgueddfa Wlân Cymru yn cysylltu â'r holl ysgolion sy'n ymweld, er mwyn casglu syniadau ar gyfer datblygu sesiynau a rhaglenni newydd yn yr Amgueddfa. Bydd yr Amgueddfa yn datblygu a threialu sesiynau hunangyfeiriedig ar Lythrennedd a Rhifedd gydag ysgolion, ac yn eu hadolygu yn ôl adborth athrawon.
Bydd Amgueddfa Wlân Cymru yn ymgynghori ag ysgolion cynradd lleol er mwyn darparu gweithgareddau clwb gwyliau, yn enwedig i blant sydd angen cymorth ychwanegol oherwydd tlodi plant.
Bydd Big Pit yn cyfrannu at fenter ymgynghori ar addysg ffurfiol fel rhan o Fforwm Addysg Dreftadaeth y De.
Ymgynghoriadau ffurfiol sy'n ymwneud â datblygu un o'r mentrau tlodi plant uchod
Bydd Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd yn gweithio gyda phlant Ysgol Gynradd Kitchener, a'u rhieni, er mwyn helpu i ddatblygu adnoddau i deuluoedd a gwerthuso'r adnodd gyda theuluoedd eraill sy'n dod i'r Amgueddfa.
Bydd Sain Ffagan yn cynllunio ac yn cynnal pedwar cyfarfod o'r fforwm cyfranogol Addysg i Oedolion a'r Gymuned, fel rhan o broject ailddatblygu Sain Ffagan.
Bydd Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn ymgynghori â grwpiau sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal er mwyn dod o hyd i'r ffordd orau o fod yn rhan o'u hagenda.
Bydd Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd Dechrau Da er mwyn creu arddangosfa ryngweithiol.
Bydd Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yn ymgynghori ag arweinwyr grwpiau Dechrau'n Deg er mwyn datblygu cyfres o weithdai allgymorth ar thema Teganau a Gemau.
Bydd Amgueddfa Wlân Cymru yn gweithio gydag arweinwyr grwpiau Teuluoedd yn Gyntaf Llanybydder a Phencader er mwyn meithrin perthynas â theuluoedd trwy gyfrwng sesiynau crefftau, cerddoriaeth ac adrodd straeon. Byddant yn cael eu datblygu gyda'r nod o geisio annog y teuluoedd i ymweld ag Amgueddfa Wlân Cymru.
Bydd Big Pit yn ymgynghori â threfnwyr a theuluoedd Dechrau'n Deg er mwyn datblygu lle chwarae awyr agored newydd.
Ymgynghori ar ddatblygu darpariaeth i grŵp dan anfantais e.e. Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, grwpiau ag anableddau ac ati
Ymgynghori â grwpiau partner Cymunedau yn Gyntaf ynglŷn â'r ddarpariaeth i bobl ifanc yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.

Ymgysylltu â grwpiau â nam ar eu golwg er mwyn treialu adnoddau newydd ar gyfer Canolfan Ddarganfod Clore yn Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.
Trafod â chydlynwyr Teuluoedd yn Dysgu gyda'i Gilydd er mwyn canfod cyfleoedd i annog teuluoedd i ddod i Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd.
Bydd Sain Ffagan yn ymgynghori â'r RNIB a MENCAP ynghylch project <i>Lost for words: creating handling resources</i> (gweler y cynllun gweithgareddau, rhif 33).
Bydd Amgueddfa Genedlaethol y Glannau yn ymgynghori ag aelodau o Grŵp Llywio'r Bartneriaeth Affricanaidd (amlddiwylliant) er mwyn sicrhau bod digwyddiadau Mis Hanes Pobl Dduon yn ffres, ystyrlon a pherthnasol ar gyfer 2013.
Bydd Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yn ymgynghori ag arweinwyr grwpiau cymuned Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig Lleol er mwyn creu partneriaeth waith gyda'r nod o gynnal digwyddiadau a chynhyrchu adnoddau ar gyfer Wythnos y Ffoaduriaid 2013.
Bydd Amgueddfa Wlân Cymru yn creu sesiynau a chymorth i blant sy'n derbyn gofal mewn cydweithrediad â Chydlynnydd Plant sy'n Derbyn Gofal Sir Gaerfyrddin.
Bydd Big Pit yn cynnal archwiliad o'r safle er mwyn gwella gwasanaethau i ymwelwyr â nam ar eu golwg, mewn cydweithrediad â Sight Cymru.
7. Cynnal a datblygu doniau, sgiliau proffesiynol a galluoedd craidd ein staff
Bydd Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru yn datblygu hyfforddiant staff fel rhan o'r Diwrnod Dysgu yn y Gwaith/Wythnos Addysg i Oedolion, ac yn cynnal dau ddiwrnod sbardun i hwyluswyr (mis Medi a'r Pasg) er mwyn adolygu gweithdai a rhannu sgiliau ar destun allgymorth.
Bydd Sain Ffagan yn darparu hyfforddiant dysgu a dehongli i wirfoddolwyr.
8. Defnyddio atebion rhithwir a'r cyfryngau newydd
Bydd ein holl amgueddfeydd yn lansio, gwerthuso a pharhau i ddatblygu tudalennau gwe addysg newydd sy'n darparu rhagor o wybodaeth fanylach am ein darpariaeth addysg ffurfiol – yn enwedig sesiynau gwerth ychwanegol.
Cynyddu'r ddarpariaeth ar-lein i grwpiau sy'n ymweld ag Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru.
Bydd Sain Ffagan yn datblygu blogiau ac yn ystyried y syniad o'u datblygu'n fforymau ar-lein ar gyfer grwpiau penodol e.e. clybiau crefft i oedolion.
9. Hyrwyddo cynaliadwyedd cyhoeddus, gwleidyddol ac ariannol
Byddwn ni'n cefnogi'r syniad o ddefnyddio Eisteddfod yr Urdd at ddibenion eiriolaeth. Yn arbennig, byddwn ni'n: Datblygu gweithgareddau sy'n gysylltiedig â phroject archaeoleg y cerrig gleision, ac ystyried y posibilrwydd o'u

cynnig ym mhabell wyddoniaeth Eisteddfod yr Urdd.

Gweithio ar arddangosfeydd a gweithgareddau er mwyn denu ysgolion lleol i ymuno â phroject Bylbiau'r Gwanwyn i Ysgolion a hyrwyddo'r project i gynulleidfaoedd cenedlaethol yn Eisteddfod yr Urdd.

Datblygu amrywiaeth o adnoddau a gweithgareddau ar gyfer stondin Amgueddfa Cymru yn Eisteddfod yr Urdd, gan roi sylw arbennig i Amgueddfa Wlân Cymru.

Atodiad Ch: Rhaglen Arddangosfeydd

	Ebrill 13	Mai 13	Mehefin 13	Gorffennaf 13	Awst 13	Medi 13	Hydref 13	Tachwedd 13	Rhagfyr 13	Ionawr 14	Chwefror 14	Mawrth 14
Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd	Julian Stair 6 Ebrill-7 Gorffennaf 2013				Mughal India 27 Gorffennaf-3 Tachwedd				Peter Blake (cofio Dylan Thomas) 23 Tachwedd-16 Mawrth			
	Shirley Jones - 30 mlynedd o Wasg Red Hen (O13) 20 Ebrill-7 Gorffennaf 2013				Arddangosfa Keith Vaughan Darluniau, printiau, ffotograffau, 1935-1962 13 Gorffennaf-24 Tachwedd (O13)				Vosper Tachwedd-Chwefror			Hunaniaeth Gymreig a cherfluniau Ivor Roberts – Jones (1913-1996) Chwefror 2014-haf (i'w gadarnhau)
	Pop a Haniaethol 9 Mawrth-1 Medi						Land Art 5 Hydref 2013-5 Ionawr 2014			Casgliad		
	Ffotograffyd d Bywyd Gwyllt y Flwyddyn 16 Mawrth- 28 Ebrill		Bîns ar Dost 25 Mai-29 Medi '13					Wallace: Gŵr Angof Esblygiad? 19 Hydref 2013-gwanwyn 2014				
Sain Ffagan												
Amgueddfa	OEDI											

Genedlaethol y Glannau	DIM ARCHEBION						
	DROS DRO	Sioe Dylunwyr Prifysgol Fetropolitan Abertawe DROS DRO	Arddangosfa fawr - Dioramas - Modelu’r dirwedd ddiwydiannol DROS DRO		Arddangosfa fawr – Ynni Niwclear yng Nghymru Tachwedd-Mawrth		Locws DROS DRO
	Josef Herman ‘Llafur’ 13 Ebrill - 22 Medi			Ysgolion Locws 29 Medi -Tachwedd	Sutherland Rhagfyr-Mawrth DROS DRO		
Big Pit							
Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru	Darganfyddiadau newydd			Arddangosfa Lliwiau			
	Arddangosfa Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol		Allorau Rhufeinig			Arddangosfa Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol	
Amgueddfa Lechi							
Amgueddfa Wlân							
Oriel y Parc				Cestyll Cymru Hydref ‘13			
Teithiol	Brunel Mawrth-Mehefin						
	Wales: Land of the Red Dragon						

	Amgueddfa Three Gorges, Chongqing 4 Mawrth - 30 Mehefin	
Digwyddiadau cenedlaethol		

Atodiad D: Materion Ariannol

DRAFFT CYFRIF REFENIW INCWM A GWARIANT

	2012/13	2013/14
	£' 000	£' 000
INCWM		
Cymorth Grant Refeniw	22,447	22,436
Trosglwyddiad o Is-gwmni Masnachu		
Adlenwadau	162	162
Elw a ddychwelir i Amgueddfa Cymru	402	302
Incwm arall	1,307	1,362
Trosglwyddiad o Gronfeydd Preifat	45	45
Trosglwyddiad o Grant Pwrcasu Sbesimenau (parthed costau staff yr Uned Adeiladu Hanesyddol)	54	54
Arian a Ddygwyd Ymlaen		
Wedi'i glustnodi	989	889
Cyffredinol	3,287	2,650
CYFANSWM INCWM	28,693	27,900
GWARIANT		
Costau Staff	19,583	19,356
Costau Gweithredu	6,099	6,139
Darpariaeth Argadwedig	2,747	1,418
Trosglwyddiad i'r Uwchgynllun Cyfalaf	9	7
Trosglwyddiad i broject ailddatblygu Sain Ffagan	255	180
Costau'r Rhaglen Newid	0	800

CYFANSWM GWARIANT

28,693 27,900

Sylwadau:

- Mae ffigurau 2012/13 yn cyfateb i'r gyllideb wreiddiol derfynol y cytunwyd arni.
- Dyma sefyllfa'r gyllideb ddrafft fel ag yr oedd ar 24 Ionawr 2013. Mae'r cyllidebau ar gyfer 2013/14 yn destun adolygiad o hyd. Ni fydd cyfanswm terfynol yr arian a ddygwyd ymlaen yn cael ei bennu tan fis Ebrill 2013.
- Gwnaed rhagdybiaethau ynglŷn â'r dyfarniadau cyflog ar gyfer 13/14 ond nid oes unrhyw gytundeb terfynol.
- Mae incwm arall yn cynnwys cyfraniad o £544,000 gan Dinas a Sir Abertawe tuag at gostau cynnal Amgueddfa Genedlaethol y Glannau.
- Mae elw Mentrau Cyf. (yr is-gwmni masnachu) yn cynnwys lleihad yn 2013/14 oherwydd effaith project ailddatblygu Sain Ffagan ar niferoedd ymwelwyr ac ar leoliad y siop.

DRAFFT CYFRIF INCWM CYFALAF A GWARIANT

	2012/13	2013/14
	£' 000	£' 000
INCWM		
Cymorth Grant Cyfalaf	600	600
Trosglwyddiad o Gronfeydd Refeniw Wrth Gefn	9	7
Rhoddion Penodol/Cyfeillion	10	0
Treth Tirlenwi/Asiantaeth yr Amgylchedd	52	0
CYFANSWM INCWM	671	607

GWARIANT

Prif Raglen	593	250
Adain Orllewinol Uchaf Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd	0	0
Gwaith Seilwaith Sain Ffagan	400	0
Project Ailddatblygu Sain Ffagan	116	350
CYFANSWM GWARIANT	1,109	600

GWARGED A DDYGWYD YMLAEN/(DIFFYG)

886	448
-----	-----

GWARGED/(DIFFYG) YN Y FLWYDDYN

(438)	7
-------	---

GWARGED A GARIWYD YMLAEN/(DIFFYG)

448	455
------------	------------

Sylwadau:

- Dyma sefyllfa'r gyllideb ddrafft fel ag yr oedd ar 24 Ionawr 2013. Ni fydd cyfanswm terfynol yr arian a ddygwyd ymlaen yn cael ei bennu tan fis Ebrill 2013.
- Mae'r gyllideb gyfalaf yn cael ei hadolygu yn gyson. Ffigurau 12/13 yw'r gyllideb gyfalaf adolygedig fel ag yr oedd ar 24 Ionawr 2013.

DRAFFT CYFRIF INCWM A GWARIANT SBESIMENAU

	2012/13	2013/14
	£' 000	£' 000
INCWM		
Cymorth Grant Sbesimenau	538	538
Arian a Ddygwyd Ymlaen	665	110
Cyfraniadau	0	0
CYFANSWM INCWM	1,203	648
 GWARIANT		
Gwaith Maes a Dyranid Adrannau	407	302
Uned Adeiladau Sain Ffagan (gan gynnwys Costau Staff yr Uned)	256	156
Project ailddatblygu Sain Ffagan	310	190
Pryniannau Arbennig:		
Partneriaeth Cronfa'r Canmlwyddiant	25	0
Pryniannau Arbennig Celf	85	0
Project yr Eisteddfod	10	0
Cronfa wrth Gefn	110	0
 CYFANSWM GWARIANT	1,203	648

Sylwadau:

- Dyma sefyllfa'r gyllideb ddrafft fel ag yr oedd ar 24 Ionawr 2013. Ni fydd cyfanswm terfynol yr arian a ddygwyd ymlaen yn cael ei bennu tan fis Ebrill 2013, er ei fod yn seiliedig ar y rhagolygon presennol.
- Mae ffigurau 2012/13 yn cyfateb i'r gyllideb wreiddiol derfynol y cytunwyd arni.
- Derbyniwyd cyfraniadau ychwanegol tuag at bryniannau penodol yn 2012/13 a disgwylir iddynt ddod i law yn 2013/14; ond nid yw'r cyfraniadau a'r pryniannau wedi'u cynnwys yn yr uchod.

